

Rhif: WG37266



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Ymgynghoriad Diwygio Canfasio - Ymateb Cymru

Ymgynghoriad ar y Cyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a
Llywodraeth yr Alban ar Ddiwygio'r Broses Ganfasio – Crynodeb o
Ymateb Cymru

Mawrth 2019

Ymgynghoriad ar y Cyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban ar Ddiwygio'r Broses Ganfasio – Crynodeb o Ymateb Cymru

Cynnwys:

Adran 1	Trosolwg o'r Ymateb Ymgynghorol	Tudalen 2
Adran 2	Y Camau Nesaf	Tudalen 8
Adran 3	Ymatebion Cymru	Tudalen 9
Adran 4	Geirfa	Tudalen 29

Adran 1: Trosolwg o'r Ymateb i'r Ymgynghoriad

Ar y cyd, mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, a Llywodraeth y DU wedi gofyn am sylwadau ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Canfasio Blynyddol ar gyfer etholiadau drwy ymgynghoriad ar y cyd.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gymorth i foderneiddio'r canfasio blynyddol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Er bod pob Llywodraeth yn rhydd i osod ein blaenoriaethau a'n polisiâu ein hunain, ystyrir lleihau'r gwahaniaeth mewn deddfwriaeth ac ymarfer cofrestru etholiadol er mwyn osgoi dryswch diangen, beichiau a chostau ac i sicrhau'r safonau uchaf.

Gosodwyd cyfanswm o 18 cwestiwn penodol yn yr ymgynghoriad a ysgogodd 83 o ymatebion ar draws y DU.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o ymatebion Cymru i'r ymgynghoriad ac mae'n cynnwys datganiad am y camau nesaf. Adran 2 yw'r datganiad am y camau nesaf ac mae Adran 3 yn cynnwys copiâu llawn o'r ymatebion i'r cwestiynau gan y rhai a oedd yn fodlon iddynt gael eu cyhoeddi.

Er bod yr ymgynghoriad ar agor i bob un ohonom yn y DU, dim ond chwech ymateb a nodwyd o Gymru.

Roedd pum ymatebydd yn dymuno bod eu henwau nhw a'u sefydliadau yn aros yn ddienw. Nid oedd un ymatebydd yn dymuno i'w ymateb gael ei gyhoeddi.

Yng Nghymru, cafwyd ymatebion gan sefydliadau Sector Cyhoeddus, sefydliad Sector Preifat ac un unigolyn.

Ar y cyfan roedd cefnogaeth gref i'r cynigion yn y ddogfen. Ymysg themâu allweddol cyffredin yr ymatebion mae;

- Cefnogaeth i baru data gorfodol, gyda pharu data lleol yn cael ei weithredu yn ôl disgrisiwn y Swyddog Cofrestru Etholiadol.
- Y blwch ticio meddiannaeth unigol ar y ffurflenni cais cofrestru yn achosi dryswch.
- Bydd rhaid i bob eiddo ag etholwr coch gael ei drosi'n eiddo coch.
- Dylai eiddo gwag gael eu hanfon drwy'r broses paru data.
- Eithrio gweithgareddau dilynol gorfodol gyda theuluoedd a anfonir ar hyd Llwybr 1

Rhestrir cwestiynau'r ymgynghoriad ac enghreifftiau o'r ymatebion isod. Mae'r ymatebion llawn i'w gweld yn adran 3

Cwestiwn 1: Rydym yn cynnig gwneud cwblhau'r broses paru data cenedlaethol yn orfodol, gyda data lleol yn cael eu paru yn ôl disgrisiwn y Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

- Cytuno y dylai paru data lleol ychwanegol fod yn ôl disgrisiwn y Swyddog Cofrestru Etholiadol.
- Bydd paru data yn caniatáu i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol Data gadarnhau manylion aelwydydd heb fod angen cael ymateb.
- Rydym o'r farn y dylai pob Swyddog Cofrestru Etholiadol gyflawni paru data cenedlaethol yn seiliedig ar ganlyniadau a gafwyd yn ystod y broses o gadarnhau Cofrestru Etholiadol Unigol (IER).

Cwestiwn 2: Rydym yn cynnig bod rhaid troi unrhyw eiddo ag etholwr coch yn eiddo coch. Ni fydd yr eiddo yn wyrdd oni bai bod 100% o'r etholwyr yn yr eiddo yn wyrdd yn unigol A ydych yn cytuno mai dyma'r peth cywir i'w wneud?

- Dylid ymchwilio ymhellach i unrhyw eiddo sy'n dangos paru data coch a pharhau ar hyd proses HEF (Ffurflen Ymholiad Aelwyd) fwy cynhwysfawr er mwyn nodi unrhyw ddileadau posibl neu newidiadau i'r gofrestr.
- Er mwyn sicrhau cofrestr gywir dylai unrhyw eiddo ag etholwr coch fynnu ymateb.

Cwestiwn 3: A ydych yn credu y dylid mandadu safon ofynnol ar gyfer cywirdeb y setiau data sy'n cael eu cadw'n lleol?

- Er mwyn creu cofrestr gyfredol dylai'r holl ddata a ddefnyddir at ddiben cofrestru fod yn gywir iawn; gall gostwng safonau'r cywirdeb arwain at anghysondebau ar gofrestr yr etholwyr.
- Byddai hyn yn sicrhau cysondeb, a heb y cywiriadau a'r cydbwysedd hwnnw byddai uniondeb a chywirdeb y gofrestr mewn perygl.
- Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol benderfynu a yw safon set data lleol yn ddigon da. Er y byddai canllawiau cenedlaethol yn ddefnyddiol.

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno y dylid gyrru eiddo gwag ac eiddo sy'n wag am gyfnod o amser drwy'r broses paru data

- Gall nifer sylweddol o'r eiddo gwag/eiddo sy'n wag am gyfnod o amser gael eu paru â data lleol megis y dreth gyngor oherwydd bod y gwahanol esemptiadau a gostyngiadau ar gyfer eiddo gwag yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan adrannau'r dreth cyngor ac felly'n adlewyrchu amgylchiadau'r eiddo yn gywir.
- Er nad yw'n bosibl i eiddo gwag/eiddo sy'n wag am gyfnod o amser gael eu cynnwys mewn paru data cenedlaethol, rydym o'r farn y dylid defnyddio paru lleol.

Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno y dylid eithrio ceisiadau diweddar i gofrestru o'r cam data gan eu nodi yn wyrdd yn awtomatig?

- Yn aml, bydd cael HEF (Ffurflen Ymholiad Aelwyd) ac ITR (Gwahoddiad i Gofrestru) ar yr un pryd yn achosi dryswch i etholwyr, felly os yw'n bosibl ystyried ITRau cyn dechrau ar y broses HEF dylai hynny leihau dryswch yr etholwyr.
- Bydd ceisiadau diweddar ar y gofrestr etholiadol wedi bod drwy broses wirio'r Adran Gwaith a Phensiynau a bydd llythyrau cadarnhad wedi'u hanfon er mwyn cadarnhau bod rhywun yn preswyllo yn yr eiddo
- Ydym. Mewn llawer o achosion, credwn fod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cofrestru etholwyr wrth iddynt symud i eiddo newydd, diolch i gydweithredu â gwasanaethau eraill yn eu hawdurdodau lleol. O ganlyniad, mae'n debygol eu bod yn meddu ar wybodaeth gywir ni fyddai'n cael ei pharu â data cenedlaethol neu leol.

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno â'r penderfyniad i beidio â chynnwys blwch ticio ar gyfer meddiannaeth unigol ar ffurflenni cais cofrestru?

- Mae cyflwyno'r blwch ticio meddiannaeth unigol wedi achosi dryswch sylweddol.
- Mae gennym dystiolaeth bod deiliaid tai wedi ticio'r blwch ar ddamwain
- Ceir problemau sylweddol gydag etholwyr yn ticio'r blwch meddiannaeth unigol yn anghywir. Dylid ei ddileu.

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno y dylid caniatáu defnyddio e-bost fel y dull cyntaf o gysylltu ar gyfer aelwydydd yn Llwybr 1 (lle cynhelir cyfeiriad e-bost), ac yn dilyn hynny, gysylltu ar bapur os na cheir ymateb?

- Yn y cyfnod modern, dylai etholwyr allu cysylltu yn ôl eu dewis ddull. Efallai y dylai hynny gynnwys cysylltu drwy neges destun hefyd,
- Rydym o'r farn bod etholwyr yn disgwyl gohebiaeth electronig fel y norm, ac maen nhw'n disgwyl inni ddefnyddio dulliau gohebu rhatach a mwy effeithiol.
- Er y gall cyfeiriad e-bost fod yn ddefnyddiol i unigolion, ni ddylid anfon e-bost i'r aelwyd gan na fyddai o bosibl yn cyrraedd y person mwyaf priodol.

Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno â'r broses arfaethedig ar gyfer Llwybr 1?

- Cytuno mai hon yw'r ffordd synhwyrol ymlaen ond rhaid ei wneud yn glir bod angen i etholwyr newydd, yn arbennig pobl ifanc sy'n ennill neu'n cyflawni rhywbeth sy'n berthnasol, gofrestru.
- Ni all etholwyr ddeall pam ei bod yn angenrheidiol cadarnhau eu manylion bob blwyddyn, a bydd gallu cysylltu â nhw heb iddynt orfod ymateb yn gam ymlaen.

Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno â'r cynnig i eithrio gweithgarwch dilynol gorfodol (ymweliadau cartref, ac ati) ar gyfer aelwydydd sydd wedi eu hanfon drwy Llwybr 1?

- Mae Llwybr 1 dal i fod yn gyfle i gaffael etholwyr newydd a/ neu newidiadau posibl, felly ni ddylai fod angen unrhyw gamau dilynol pellach. Gellir cefnogi hyn yn sylweddol drwy baru data'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y gofrestr mor ddiweddar â phosibl pan fydd y broses ganfasio yn dechrau.
- Ydym, gan fod defnydd gwell o ddata yn caniatáu ateb mwy cost-effeithiol i sicrhau canfasio cywir.
- Holl gynsail diwygio'r canfasio yw gwneud gwell defnydd o ddata fel nad oes angen i'r dinesydd ymateb i ohebiaethau pan nad oes unrhyw newid yng nghyfansoddiad ei aelwyd.

Cwestiwn 10: A ydych yn cytuno â'r broses arfaethedig ar gyfer Llwybr 2?

- Mae Llwybr 2 yn cynnig mwy o hyblygrwydd o ran cael yr wybodaeth i'r rhai nad ydynt yn ymateb.
- Rydym o'r farn mai Llwybr 2 yw'r ffordd gywir i'w chymryd, o ystyried mai'r unig eiddo a anfonir ar hyd Llwybr 2 yw'r rhai y mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn wirioneddol gredu sydd wedi gweld newid yn eu cyfansoddiad.
- Rydym yn cytuno y dylid anfon deiliaid tai nad oes modd eu paru ar hyd y llwybr hwn ond rydym yn anghytuno â hyd at dri chyswllt. Credwn fod dau gyswllt yn ddigonol – gyda'r ail yn gyswllt personol.

Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno y dylai cysylltu yn bersonol (curo ar ddrws neu alwad ffôn) fod yn elfen orfodol o'r canfasiad diwygiedig?

- Mae ymweliadau personol gan ganfaswyr yn caniatáu i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol helpu llawer o etholwyr a all fod yn cael anhawster wrth gofrestru, a gwyddys bod yn cynyddu ymateb.
- Ceir tystiolaeth sylweddol am yr effaith gadarnhaol a gaiff cyswllt personol ar ymatebion i ganfasio. Rydym yn falch bod cyswllt ffôn wedi'i ychwanegu a byddem yn awgrymu y dylid ystyried defnyddio e-bost hefyd.
- Mae'n anodd canfasio mewn rhai ardaloedd neu fe'u hystyrir yn anniogel, felly dylai fod yn ôl disgrisiwn y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Cwestiwn 12: A oes mathau o eiddo sy'n ychwanegol at y rhai a nodir uchod yr ydych yn credu y dylid eu cyfeirio at Lwybr 3?

- Gellir hefyd roi ystyriaeth i eiddo llety gwarchod a chanddynt swyddfeydd wardeniaid ar y safle. Gall safleoedd carafanau, cychod sy'n gartrefi a llety nyrsys mewn ysbytai fod yn anodd eu canfasio yn y ffordd draddodiadol a gallent elwa o Lwybr 3.
- Canolfannau Ffoaduriaid, Barics y Lluoedd Arfog.
- Credwn y dylid ystyried y canlynol: safleoedd cartrefi symudol, llety staff ysbytai, barics personél y lluoedd arfog, a marinâu.

Cwestiwn 13: A ydych yn credu mai hon yw'r broses gywir i ddelio â'r eiddo hyn?

- Mae'r broses a amlinellir yn gywir ar gyfer yr eiddo hyn, ond dylai'r data a ddarperir fod mewn fformat y gall Swyddog Cofrestru Etholiadol ei ddefnyddio.
- Er ein bod yn cytuno â'r broses, yn aml mae gweinyddwyr Cymru yn darganfod mai ychydig iawn o ymateb sydd i ITRau a anfonir i Dai Amleddiannaeth (er enghraifft, cartrefi gofal neu neuaddau preswyl myfyrwyr). Hyd nes y bydd newidiadau i'r deddfwriaeth i ddiwygio/symleiddio'r gwaith dilynol sydd ei angen ar ITRau bydd problemau'n parhau. Efallai fod yna gyfle i ystyried dulliau amgen ac rydym yn llwyr gefnogi'r opsiwn o ddarparu Llwybr 3.

Cwestiwn 14: A ydych yn credu mai anfon yr eiddo hyn i Lwybr 2, y canfasiad llawn, os na fydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gallu cael gafael ar ddata, yw'r amddiffyniad cywir ar gyfer yr eiddo hyn?

- Ydym, mae angen rhoi mesuriadau wrth gefn fel Llwybr 2 yn eu lle er mwyn parhau i gael yr wybodaeth HEF berthnasol ar gyfer pob eiddo.
- Os nad yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen yna dylai'r eiddo fynd i lawr i Lwybr 2.
- Byddem yn annog ac yn rhoi cefnogaeth lwyr i Lywodraethau'r Alban/Cymru/y DU i fynd ar drywydd yr awgrym ganddyn nhw i roi swyddogaeth benodol mewn deddfwriaeth ar swyddogion cyfrifol mewn eiddo adnabyddadwy i ddarparu'r wybodaeth hon ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol pan ofynnir iddynt wneud hynny, yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai darpar etholwyr/etholwyr posibl gael eu cynnwys yn y broses o baru data a'r cyfathrebiadau canfasio? - Rhowch sylwadau os nad ydych yn cytuno.

- Mae angen gwahaniaethu rhwng etholwyr cofrestredig a rhai efallai eu bod nhw'n etholwyr posibl, neu fel arall bydd etholwyr yn drysu.
- Nid yw darpar etholwyr/etholwyr posibl yn etholwyr cofrestredig ac ofnwn y byddai eu cynnwys ar unrhyw ohebiaeth yn peryglu eglurder yr ohebiaeth.
- Mae diwygio canfasio yn gyfle i ystyried darpar etholwyr/etholwyr posibl mewn mwy o fanylder gyda darpariaeth statudol yn cael ei gwneud i etholwyr arfaethedig/potensial gael eu dileu yn ôl disgrisiwn y Swyddog Cofrestru Etholiadol unwaith y bydd pob cam statudol wedi ei gymryd. Byddem hefyd yn ceisio cael canllawiau i gynorthwyo'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn y penderfyniad hwn.

Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai darpar etholwyr/etholwyr posibl gael eu cynnwys yn y broses o baru data a'r cyfathrebiadau canfasio - os felly, a ydych o'r farn bod unrhyw risg o wneud hynny?

- Mae peidio â chynnwys etholwyr newydd arfaethedig/potensial yn achosi dryswch oherwydd yn aml mae preswylwyr yn dweud eu bod wedi llenwi ffurflen gofrestru ond mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn yr wybodaeth a gyflwynir iddynt ar yr HEF. Mae dangos yr wybodaeth ddiweddaraf am ddarpar etholwyr/etholwyr posibl ar yr HEF yn rhoi adlewyrchiad gwell o'r data a ddelir Swyddogion Cofrestru Etholiadol. Bydd dangos yr etholwyr cofrestredig ynghyd â data eraill a ddelir hefyd yn gymorth o ran dyblygu. Dylid ystyried y geiriau a ddefnyddir nesaf at ddarpar etholwyr/etholwyr posibl ar yr HEF er mwyn arbed dryswch a sicrhau na ragdybir eu bod yn etholwyr cofrestredig.

Cwestiwn 16: Beth ydych chi'n credu yw'r problemau gyda'r Ffurflen Ymholiad Aelwyd bresennol?

- Yng Nghymru darperir dwy ffurflen A3, un yn Saesneg a'r llall yn Gymraeg. Mae hyn yn golygu cost cynhyrchu ychwanegol sylweddol a dim ond un ffurflen sy'n cael ei hanfon yn ôl, felly mae'r ffurflen yn yr iaith arall yn cael ei diystyru.
- Diffyg dealltwriaeth gan ddeiliaid tai o ran pam y dylent gael ITR pan maent, yn eu tyb nhw, eisoes wedi rhoi gwybod ichi eu bod yna. Mae'r broses HEF ar-lein yn caniatáu ichi wneud yr holl broses gofrestru - pam na ellir gwneud hyn ar y fersiwn papur?
- Credwn fod cael HEFau Cymraeg a Saesneg ar wahân yn anodd ei reoli ac yn ddrud i'w weithredu.
- Mae maint y ffurflen yn ddigon i rwystro pobl rhag edrych arni hyd yn oed, oherwydd credant fod gofyn iddynt wneud mwy na'r hyn sydd ei angen mewn gwirionedd - mae'n digalonni rhywun. Yma yng Nghymru, mae 2 ffurflen, felly maent yn gorfod wynebu mwy byth o bapur. Roedd gan ffurflenni canfasio blaenorol y Gymraeg ar un ochr a'r Saesneg ar yr ochr llall.

Cwestiwn 17: A oes unrhyw wybodaeth y gellir ei thynnu allan o'r Ffurflen Ymholiad Aelwyd?

- Yn aml, llenwir adran 2 gydag etholwyr ychwanegol (yn hytrach nag adran 3) felly gellid cyfuno adrannau 2 a 3.
- Dylid newid y cwestiwn post/procsi i bost yn unig. Dim ond mewn amgylchiadau penodol y mae modd cael procsi parhaol, felly dylid hepgor hyn.

- Credaf, yn syml, fod angen ei hail-ddylunio – mae etholwyr yn llenwi enwau etholwyr newydd byth a beunydd er bod eu henwau eisoes yn ymddangos neu mae etholwyr newydd yn llenwi eu henwau ddwywaith, gellid rhoi llinellau o dan yr hyn sydd eisoes wedi'i argraffu.
- Nid oes angen cynnwys yr wybodaeth am y bleidlais drwy'r post ar ddiwedd yr HEF oherwydd bydd yn cael ei chynnwys yn yr ITR. Lleihau nifer y geiriau ar dudalen 1 (llythyr). Dylid ailystyried y gair dewisol o ran manylion cyswllt.

Cwestiwn 18: A oes unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu darparu mewn cysylltiad â'r model newydd arfaethedig ar gyfer y canfasiad blynyddol, nad ydynt eisoes wedi eu cynnwys mewn cwestiwn arall?

- Mae paru data cenedlaethol yn ddibynnol ar gywirdeb y data cenedlaethol a dylai hyn gael ei fonitro gan Swyddfa'r Cabinet am gywirdeb rheolaidd ac i sicrhau bod eu cofnodion yn cael eu cynnal a'u bod yn gyfredol. Mae paru lleol yn dibynnu ar yr adran berthnasol i fod yn gyfredol a chywir: dylid cynnal adolygiadau i gadarnhau a yw'r ffynhonnell data'n gyfredol.
- Croesewir y gwaith o foderneiddio'r broses ganfasio. Mae angen ystyried gofynion y Gymraeg wrth gynnig newidiadau i ffurflenni. Dylid cynnwys y ddarpariaeth i gynnal canfasiad 'llawn' petai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn credu ei bod yn angenrheidiol neu y dylid ei chynnwys.
- Yn ein tyb ni, er mwyn sicrhau pontio llwyddiannus i'r prosesau canfasio newydd, roedd yn gwbl hanfodol sicrhau bod ymarferoldeb a rheolaeth llif gwaith y feddalwedd Rheolaeth Etholiadol wedi eu profi yn ddigonol a'u bod wedi eu sefydlu o fewn cyfnod cynllunio'r prosiect a drefnwyd cyn unrhyw ddyddiad 'mynd yn fyw'.

Adran 2: Y Camau Nesaf

Gan fod y pŵer dros etholiadau Cymru wedi ei ddatganoli, lle Gweinidogion Cymru yw penderfynu pryd i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl diwygio'r broses ganfasio.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban yn parhau i gydweithio ar ddiwygio'r broses ganfasio, ac er bod rhwydd hant i bob Llywodraeth osod ei blaenoriaethau a'i pholisïau ei hun, mae awydd hefyd i leihau gwahaniaethau mewn deddfwriaeth ac arferion etholiadol ledled y DU.

Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu defnyddio'n sail i unrhyw ddeddfwriaeth fydd yn diwygio'r canfasio.

Wrth ddadansoddi'r diwygiadau arfaethedig yn yr ymgynghoriad canfuwyd bod yr ymatebion hynny o Gymru yn gefnogol a bydd hyn yn caniatáu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyfrannu at lunio'r canfasiad drwy gyfrwng gweithgareddau sy'n gweddu orau at eu hamgylchiadau lleol.

Hoffem ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd eich sylwadau'n bwysig wrth lunio'r penderfyniadau ynglŷn â diwygio'r canfasiad.

Adran 3: Yr Ymatebion o Gymru

Cyflwynwyd i Cynigion i ddiwygio'r canfasiad blynyddol

Cyflwynwyd ar 2018-12-01 12:08:11

1 Rydym yn cynnig gwneud cwblhau'r broses paru data cenedlaethol yn orfodol, gyda data lleol yn cael eu paru yn ôl disgrisiwn y Swyddogion Cofrestru Etholiadol. A ydych chi'n cytuno mai dyma'r dull gorau?

Ydym

Os Na, eglurwch eich rhesymau.: Rydym ni'n credu y dylai pob Swyddog Cofrestru Etholiadol gynnal prosesau paru data cenedlaethol yn seiliedig ar y canlyniadau a gafwyd yn ystod y broses o gadarnhau cofrestru etholiadol unigol. Er ein bod yn derbyn bod y gyfradd baru yn amrywio'n sylweddol ar draws y wlad, rydym o'r farn bod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ffynhonnell dda o ddata y dylai pob Swyddog Cofrestru Etholiadol ei defnyddio. Rydym ni hefyd yn croesawu'r ffaith y gall Swyddogion benderfynu a yw paru data lleol yn ddefnyddiol yn eu hardaloedd nhw a pha ffynonellau data a fydd o werth. Byddem yn annog y Llywodraeth i gynorthwyo Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gloriannu pa ffynonellau data, yn ychwanegol at y rhai y maent yn eu defnyddio ar hyn o bryd, a all fod ar gael a sut i weithio gyda phartneriaid i'w galluogi i gael gafael ar yr wybodaeth hon ar ffurf y gallant ei defnyddio.

2 Rydym yn cynnig bod yn rhaid troi unrhyw eiddo ag etholwr coch yn eiddo coch. Ni fydd yr eiddo yn wyrdd oni bai bod 100% o'r etholwyr yn yr eiddo yn wyrdd yn unigol A ydych yn cytuno mai dyma'r peth cywir i'w wneud?

Ydym

Os Na, eglurwch eich rhesymau.: Y sail i ddiwygio'r canfasiad yw y caiff data ei ddefnyddio i sicrhau'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fod pob etholwr cofrestredig yn dal yn byw yn yr eiddo. Ni allwn gefnogi unrhyw system lle caiff gohebiaeth nad oes angen ymateb iddi ei hanfon at aelwyd ble nad yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn sicr fod pob preswlydd yn dal yn gymwys i fod ar y gofrestr.

3 A ydych yn credu y dylid mandadu safon ofynnol ar gyfer cywirdeb y setiau data sy'n cael eu cadw'n lleol?

Ydym

Eglurwch eich rhesymau.: Heb bennu isafswm safon ar gyfer data a ddelir yn lleol mae perygl sylweddol i fanwl gywirdeb y gofrestr etholiadol. Mae hi'n hanfodol bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn deall y data sydd ar gael iddynt ynghyd â pha mor fanwl gywir a chyfredol ydyw, ac unrhyw gyfyngiadau. Mae Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol ar hyn o bryd yn bryderus y gall nifer o Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddefnyddio setiau data heb ddealltwriaeth ddigonol o ba mor fanwl gywir ydynt. Byddid yn croesawu unrhyw gymorth y gellir ei roi i'w cynorthwyo i sicrhau bod y data y maent yn eu defnyddio o safon ddigonol. Dylai bod canllawiau clir hefyd ynghlŷn â sut i ddehongli'r trothwy manwl gywirdeb a sut mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn sicrhau y gallant wirio hyn yn rheoliad. Byddem yn gefnogol o gael canllawiau ynghlŷn â'r trothwy manwl gywirdeb, ond ni fyddem yn cefnogi lefel orfodol.

4 A ydych yn cytuno y dylid gyrru eiddo gwag ac eiddo sy'n wag am gyfnod o amser drwy'r broses paru data?

Ydym

Eglurwch eich rhesymau.: Er na fydd hi'n bosibl cynnwys eiddo gwag wrth baru data cenedlaethol, credwn y dylid defnyddio prosesau paru data lleol. Mae yna rai Swyddogion Cofrestru Etholiadol sydd â phoblogaethau sefydlog o etholwyr

anghymwys, er enghraifft safleoedd milwrol Americanaidd, a fyddai'n elwa o ddefnyddio ffynonellau data lleol, fel y bydd y rhai hynny sydd â chyfraddau sylweddol o ail gartrefi / cartrefi gwyliau. Byddem hefyd yn awgrymu ystyried rhoi canllawiau ynghylch a yw hi'n werth argymell i Swyddogion Cofrestru Etholiadol baru data ynglŷn ag eiddo gwag mewn mwy nag un man yn y canfasiad, ac o bosibl yn ymarferiad ar wahân cyn etholiadau. Er nad yw hyn yn angenrheidiol ar gyfer pob math o eiddo gwag, mae hi'n werth i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ystyried manteision posibl gweithgarwch o'r fath.

5 A ydych yn cytuno y dylid eithrio ceisiadau diweddar i gofrestru o'r cam data gan eu nodi yn wyrdd yn awtomatig?

Ydym

Os ydych, pa gyfnod o amser ydych chi'n credu y dylid ei ddiffinio fel "diweddar" (mis, 2 fis, yn gysylltiedig â'r diweddariad misol diwethaf)?

Eglurwch.: Ydym. Rydym ni'n credu bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol, ar sawl achlysur, yn cofrestru etholwyr pan fyddant yn symud i eiddo newydd am y tro cyntaf, diolch i gydweithio gyda gwasanaethau eraill yn eu hawdurdod lleol. O ganlyniad, mae hi'n debygol bod ganddynt wybodaeth fanwl gywir na fyddai'n paru gyda data lleol na chenedlaethol. Mae angen bod dull ar waith ar gyfer y dinasyddion hyn sy'n sicrhau na roddir yr anhwylystod iddyn nhw o orfod ymateb pan fo'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ffyddiog bod yr wybodaeth sydd ganddo yn gyfredol ac yn fanwl gywir. Rydym ni'n credu y dylai fod gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol elfen o ryddid yn y maes hwn, nhw sy'n adnabod eu hetholwyr orau ac mae'n debygol y bydd arnynt eisiau hyblygrwydd yn dibynnu ar ba mor sefydlog yw eu poblogaeth. Byddem yn awgrymu fodd bynnag nad yw'r cyfnod o amser yn fwy na dau fis. Byddem hefyd yn awgrymu bod y cyfnod a bennir yn berthnasol i'r rhybudd addasu y maent yn ymddangos arno yn hytrach na dyddiadau ymgeisio neu benderfynu unigol.

Os Na, eglurwch eich rhesymau.:

6 A ydych yn cytuno â'r penderfyniad i beidio â chynnwys blwch ticio ar gyfer meddiannaeth unigol ar ffurflenni cais cofrestru

Ydym

Eglurwch eich rhesymau.: Mae'r gweinyddwyr yr ydym ni wedi siarad â nhw yn cadarnhau, er gwaethaf adolygu'r geiriad, bod nifer sylweddol o ymgeiswyr yn parhau i roi tic yn y blwch hwn pan nad yw'n berthnasol. Mae hyn yn achosi gwaith a chostau sylweddol heb fod buddion digonol i wrthbwysu hynny. Fodd bynnag, rydym ni'n cefnogi rhoi ystyriaeth bellach o ran gofyn i ymgeiswyr pwy arall sy'n byw yn yr eiddo. Byddai casglu gwybodaeth ansoddol yn helpu Swyddogion Cofrestru Etholiadol i sicrhau y gwahoddir pob preswlydd cymwys i gofrestru. Hoffem weld rhagor o waith yn cael ei wneud i weld pa mor ymarferol fyddai hyn o ran sut fyddai'n gweithio gyda'r system rheoli etholiadol a sicrhau y gellid prosesu'r wybodaeth hon yn rhwydd. Yn rhan o'r gwaith hwn, credwn hefyd y dylid ystyried o ddifrif y buddion o ganiatáu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gadw manylion y bobl hynny sy'n anghymwys i gofrestru oherwydd eu cenedligrwydd. Heb hyn, mae hi'n bosibl y gofynnir i etholwyr anghymwys ar fwy nag un achlysur i gofrestru.

7 A ydych yn cytuno y dylid caniatáu defnyddio e-bost fel y dull cyntaf o gysylltu ar gyfer aelwydydd yn Llwybr 1 (Ile cynhelir cyfeiriad e-bost), ac yn dilyn hynny, gysylltu ar bapur os na cheir ymateb?

Ydym

Os Na, eglurwch eich rhesymau.: Rydym ni'n sylweddoli bod hwn yn faes ble mae sawl barn gyferbyniol, ond ar y cyfan credwn y dylai aelwydydd Llwybr 1 allu ymateb i e-gyfathrebu cyn y cysylltir ar bapur. Mae ein barn yn seiliedig ar yr hyn y tybiwn yw'r ffordd y mae dinasyddion yn dymuno derbyn gohebiaeth a'r buddion ychwanegol sy'n dod yn sgil y dull hwn o gyfathrebu. Er ein bod yn derbyn nad yw e-gyfathrebu yn golygu y cysylltwyd â'r aelwyd, - h.y. gyda llythyr drwy'r drws, caiff yr ohebiaeth ei hanfon at rywun y mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ffyddiog sy'n dal yn breswlydd. Os derbynnir yr egwyddor sylfaenol o ddiwygio'r broses ganfasio - h.y. y cadarnheir gwybodaeth yr etholwyr drwy baru data manwl gywir, yna ni ddylai cysylltu'n uniongyrchol â'r etholwr danseilio'r broses. Rydym ni hefyd yn credu ei fod yn rhoi buddion ychwanegol, sef, os yw etholwr wedi ei gadarnhau yn anghywir, mae hynny'n ei hysbysu ei fod yn dal wedi ei gofrestru mewn cyfeiriad blaenorol fel y gall unioni'r sefyllfa. Ceir arbedion cost posibl hefyd, er y gwyddom ni ar hyn o bryd fod rhai cyflenwyr masnachol yn codi mwy na chost debygol gohebiaeth drwy'r post. Byddai'n fuddiol i'r Llywodraeth edrych ar brisiau e-gyfathrebu a ble byddai modd defnyddio dulliau eraill. Ymhob agwedd ar ddiwygio'r canfasiad fodd bynnag buasem yn pwysleisio'r angen i bob math o gyfathrebu fod wedi eu hystyried yn ofalus a'u profi'n drwyadl. Mae hi'n hanfodol bod y dinesydd yn hyderus o darddiad yr e-gyfathrebu ac yn deall yr hyn sydd angen iddo ei wneud. Bydd angen ystyried hefyd a ddylid cysylltu â phob etholwr sydd â'r manylion cyswllt angenrheidiol neu â nifer cyfyngedig mewn eiddo. Hefyd, nid ydym yn credu y dylid mynd ar ofyn y bobl hynny sy'n iau na 18 oed.

Yn olaf, teimlwn y dylid ehangu cyswllt e-bost i gynnwys dewisiadau e-gyfathrebu eraill sydd ar gael i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, megis neges destun neu ap Cyngor.

8 A ydych yn cytuno â'r broses arfaethedig ar gyfer Llwybr 1?

Ydym

Eglurwch pam.: Rydym ni'n credu mai defnyddio data i roi gwell profiad i ddinasyddion yw'r ffordd briodol o fynd ati. Nid yw etholwyr yn deall pam fod angen cadarnhau eu manylion bob blwyddyn ac mae caniatáu cysylltu â nhw heb fod angen iddynt ymateb yn gam ymlaen. Bydd hefyd yn arbed arian y mae ei ddirfawr angen ar awdurdodau lleol.

Byddem yn pwysleisio eto pwysigrwydd geiriad yr ohebiaeth i sicrhau bod dinasyddion yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud, os o gwbl. Yn benodol, rydym ni'n bryderus ynghylch sicrhau y caiff newidiadau y mae angen eu gwneud, megis etholwyr yn cyrraedd 76 oed, yn cyrraedd oedran pleidleisio neu'n nodi preswylwyr eraill sydd wedi symud i'r eiddo, wedi eu hamlinellu'n glir.

Hefyd, credwn ei bod hi er budd y dinesydd a'r awdurdod lleol bod modd newid yn raddol o ymatebion ar bapur i ddulliau eraill i'r graddau y bo hynny'n bosibl. Dylid annog Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ddefnyddio'r dulliau hyn yn hytrach na mynnu ymatebion ar bapur.

I annog newid cyfrwng ac o ran arbed costau, ni ddylai fod unrhyw ofyniad statudol i gynnwys amlen barod ragdaleddig ar gyfer unrhyw gyfathrebu ar bapur. Gwneir arbedion ar bapur, argraffu, tâl postio ac amser prosesu yn y swyddfa.

9 A ydych yn cytuno â'r cynnig i eithrio gweithgarwch dilynol gorfodol (ymweliadau cartref, ac ati) ar gyfer aelwydydd sydd wedi eu hanfon drwy Lwybr 1?

Ydym

Eglurwch pam.:

Holl fwriad diwygio'r canfasiad yw er mwyn defnyddio data'n well fel nad oes angen i ddinasyddion ymateb i gyfathrebu pan nad oes unrhyw newid yng nghyfansoddiad eu haelwyd. Cam yn ôl fyddai rhoi rheidrwydd ar unrhyw Swyddog Cofrestru Etholiadol i gynnal gweithgarwch dilynol. Hefyd, gan ragdybio y caniateir e-gyfathrebu, cysylltir â sawl aelwyd mewn dwy ffordd wahanol gan roi cyfle ychwanegol iddynt ystyried yr wybodaeth a anfonir atynt.

10 A ydych yn cytuno â'r broses arfaethedig ar gyfer Llwybr 2?

Ydym

Eglurwch pam. : Rydym ni'n credu mai Llwybr 2 yw'r ffordd briodol o fynd ati o gofio mai'r unig eiddo a gaiff eu hanfon ar hyd llwybr 2 yw'r rhai hynny y mae'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn wirioneddol gredu y bu newid yn eu cyfansoddiad. At hyn, mae hi'n hanfodol fod y sancsiynau erlyn am beidio â dychwelyd yr HEF a'r ITR sydd ar gael i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar hyn o bryd yn dal ar gael yn y dyfodol, oni wellir arnynt drwy ddiwygio'r canfasiad.

11 A ydych yn cytuno y dylai cysylltu yn bersonol (curo ar ddrws neu alwad ffôn) fod yn elfen orfodol o'r canfasiad diwygiedig?

Nac ydym

Eglurwch pam.: Er ein bod yn cydnabod effaith gadarnhaol cyswllt personol ar y canfasiad, ein barn ni yw os ydym ni'n mynd i ddiwygio proses y canfasiad yn llwyr, yna dylid rhoi terfyn ar ganfasio personol. Bydd hyn yn arbed costau sylweddol o ran rheoli a gweinyddu canfaswyr yn lleol a chenedlaethol. Mae hefyd yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar y Swyddog Cofrestru Etholiadol i sicrhau y cysylltir â dinasyddion, ac nid yw hyn yn unol ag ysbryd cofrestru etholiadol unigol. Mae'r cyfrifoldeb ar hyn o bryd ar yr unigolyn.

12 A oes mathau o eiddo sy'n ychwanegol at y rhai a nodir uchod yr ydych yn credu y dylid eu cyfeirio at Lwybr 3?

Rhestrwch nhw, ac eglurwch eich rhesymau.: Rydym ni'n credu y dylid ystyried y canlynol: safleoedd cartrefi symudol, llety staff ysbyty, barics personél y gwasanaethau arfog, marinâu, cynlluniau tai â chymorth – rheolaeth warden.

13 A ydych yn credu mai hon yw'r broses gywir i ddelio â'r eiddo hyn?

Ydym

Os Na, allwch chi awgrymu ffordd arall?: Mae'r broses a amlinellir yn gywir ar gyfer yr eiddo hyn, fodd bynnag, mae angen i'r data a ddarparwyd fod mewn diwyg sy'n hawdd i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ei ddefnyddio. Er bod Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn cefnogi dynodi swyddog cyfrifol sydd â dyletswydd i roi'r wybodaeth i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, mae angen ystyried y gofynion mewn meysydd eraill, er enghraifft meysydd carafanau. Mae angen mwy o eglurder deddfwriaethol i unigolion ddarparu gwybodaeth ble nad oes ganddynt ddynodiad swyddogol. At hyn, gallai cyflwyno swyddogion cyfrifol mewn prifysgol olygu 20 swyddog gwahanol os oes 20 neuadd breswyl, ble byddai rheolwr data prifysgol yn golygu dim ond un swyddog i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol siarad ag ef neu hi. Byddem hefyd yn gofyn am eglurder o ran a oes modd i'r swyddog cyfrifol ddefnyddio'r rhestr fel un ffurf o dystiolaeth os oes rhywun sydd ar y gofrestr etholwyr nad ydyw ar y rhestr.

14 A ydych yn credu mai anfon yr eiddo hyn i Lwybr 2, y canfasiad llawn, os na fydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gallu cael gafael ar ddata, yw'r amddiffyniad cywir ar gyfer yr eiddo hyn?

Ydym

Eglurwch eich rhesymau.: Fel yr atebodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Cymru) - Os na all y Swyddog Cofrestru Etholiadol gael gafael ar yr wybodaeth

angenrheidiol, yna nid oes unrhyw ddewis ond anfon yr eiddo i lawr Llwybr 2. Rydym ni'n gwbl grediniol, fodd bynnag, y dylid rhoi cymorth pellach i Swyddogion Cofrestru Etholiadol i'w helpu i gyrchu gwybodaeth gan sefydliadau, yn enwedig barics milwrol a chan fyfyrwyr. Os mewn Tŷ Amlfeddiannaeth nad oes unrhyw ymateb drwy gyfrwng proses Llwybr 3 yna maent yn annhebygol iawn o ymateb drwy gyfrwng Llwybr 2 a allai arwain at ffordd hirach a mwy costus o gael ymateb. Byddem yn llwyr annog a chefnogi Llywodraethau y DU/Cymru/Yr Alban i wireddu eu hawgrym i roi dyletswydd benodol ar swyddogion cyfrifol mewn mathau adnabyddadwy o eiddo i ddarparu'r wybodaeth hon i Swyddogion Cofrestru Etholiadol pan ofynnir iddynt wneud hynny, yn unol â phrosesau gwarchod data.

15 A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai darpar etholwyr/etholwyr posibl gael eu cynnwys yn y broses o baru data a'r cyfathrebiadau canfasio? - Rhowch sylwadau os nad ydych yn cytuno.

Nac ydym

Os nad, eglurwch pam.: Nid yw etholwyr arfaethedig/posibl yn etholwyr cofrestredig ac rydym ni'n bryderus y byddai eu cynnwys mewn unrhyw gyfathrebu yn golygu y byddai'n effeithio ar ba mor eglur yw'r cyfathrebu. Mae rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cadw etholwyr arfaethedig/posibl ar eu meddalwedd tra bo eraill yn eu dileu ar gyfnodau achlysurol neu ar adeg benodol, er enghraifft, cyn y canfasiad blynyddol. Mae diwygio'r canfasiad yn gyfle i edrych ar etholwyr arfaethedig/posibl yn fwy manwl ble gwneir darpariaeth statudol i ddileu etholwyr arfaethedig/posibl fel y gwêl Swyddogion Cofrestru Etholiadol orau ar ôl cyflawni pob gweithred statudol. Byddem hefyd yn gofyn am ganllawiau i helpu Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyda'r penderfyniad hwn.

Eglurwch beth yw'r rhain.:

16 Beth ydych chi'n credu yw'r problemau gyda'r Ffurflen Ymholiad Aelwyd bresennol?

Sylwadau: Mae'n ddrislyd i etholwyr - mae pobl yn credu eu bod wedi cofrestru ar ôl cwblhau eu manylion ar HEF heb sylweddoli mai dyma ran gyntaf proses dwy gam a bod yn rhaid iddynt gwblhau ITR er mwyn cofrestru. Maint - rhy fawr a llawer gormod o wybodaeth. A3 ar hyn o bryd ond mae A4 yn faint mwy hylaw ar gyfer y canfasiad personol ac i'r sawl sy'n cwblhau'r ffurflen, heb sôn am allu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i'w phrosesu. Mae dau ddyluniad i'r HEF - un wedi ei llenwi'n rhannol ac un wag. Rydym ni'n ymwybodol fod rai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio dim ond un templed ar gyfer ffurflenni wedi eu llenwi'n rhannol a rhai gwag. Dylid ystyried a yw hi'n bosibl cael dim ond un dyluniad.

Mae gormod o fanylion ar dudalen 1 a thystiolaeth nad yw preswylwyr yn darllen y llythyr atodol. Mae Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Cymru) yn cefnogi ymateb drafft Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, dywedodd aelodau cangen fod cael Ffurflenni Ymholiad Aelwyd Cymraeg a Saesneg unigol yn anodd ei reoli ac yn ddrud ei weinyddu. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i symleiddio dyluniad presennol yr HEF yng Nghymru, gydag ieithoedd unigol ar bob ochr a chefn wrth gefn, h.y., Ffurflen Saesneg gyda nodiadau ar y cefn a ffurflen Gymraeg gyda nodiadau ar y cefn.

17 A oes unrhyw wybodaeth y gellir ei thynnu allan o'r Ffurflen Ymholiad Aelwyd?

Sylwadau.: Gellid lleihau faint o linellau sydd ar gael ar gyfer ychwanegu enwau. Nid oes angen i'r HEF wedi ei rhannol lenwi gynnwys trefniadau pleidleisio drwy'r post. Nid oes angen i'r HEF wag gynnwys y manylion eithrio. Nid oes angen cynnwys yr wybodaeth am bleidleisio drwy'r post ar ddiwedd yr HEF oherwydd bydd

wedi ei gynnwys ar yr ITR. Lleihewch faint o eiriau sydd ar dudalen 1 (llythyr). Dylid ailystyried y gair 'dewisol' o ran manylion cyswllt. Ein cyngor ni fyddai ystyried sut mae'r wefan cofrestru i bleidleisio wedi ei newid i annog dinasyddion i roi eu manylion cyswllt. Mae Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Cymru) yn cefnogi ymateb drafft Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i'r ymgynghoriad. At hyn, dywedodd aelodau eu bod yn canfod yn aml fod etholwyr yn tueddu i roi manylion etholwyr ychwanegol yn 'Adran 2' yr HEF yn hytrach nag 'Adran 3' ac o'r herwydd efallai bod modd cyfuno'r adrannau hyn.

18 A oes unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu darparu mewn cysylltiad â'r model newydd arfaethedig ar gyfer y canfasiad blynyddol, nad ydynt eisoes wedi eu cynnwys mewn cwestiwn arall?

Sylwadau: Rydym yn croesawu gwaith y Llywodraeth i ddiwygio'r broses ganfasio flynyddol bresennol a sicrhau manteision i ddinasyddion ac awdurdodau lleol. Wrth gefnogi'r cynigion, ceir rhai meysydd sy'n haeddu ystyriaeth bellach. Cyfeirnodau Eiddo Unigryw Rydym yn deall y bydd y data cenedlaethol yn seiliedig ar Gyfeirnodau Eiddo Unigryw yn unig ac na fyddant yn defnyddio'r Cyfeirnod Eiddo Unigryw a'r gyfres o gyfeiriadau ill dau er mwyn paru, fel y digwyddodd pan gyflwynwyd y Cofrestru Etholiadol Unigol. O ganlyniad, bydd angen i Swyddfa'r Cabinet anfon negeseuon cynnar priodol at Swyddogion Cofrestru Etholiadol i sicrhau bod ganddynt Gyfeirnod Eiddo Unigryw ar gyfer pob eiddo sydd ganddynt. Rydym yn ymwybodol bod rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol nad oes ymdriniaeth lawn ganddynt ac mae'n angenrheidiol egluro fod y Cyfeirnodau Eiddo Unigryw ar waith yn hollbwysig er mwyn diwygio canfasio yn llwyddiannus. Setiau Sgiliau yn yr Awdurdodau Lleol a'r Feddalwedd Rheoli Etholiadol. Ar hyn o bryd, nid yw rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gallu paru data'n lleol oherwydd diffyg galluedd y feddalwedd, sgiliau, adnoddau a'r data sydd ar gael. Bydd angen i Swyddfa'r Cabinet ddarparu cymorth, canllawiau a chyllid i'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol i'w galluogi nhw i baru data yn lleol yn llwyddiannus. Byddem hefyd yn annog y Llywodraeth i gysylltu â rhanddeiliaid allweddol sy'n cynnal cronfeydd data, megis cofnodion y Dreth Gyngor, er mwyn galluogi adroddiadau i gael eu hysgrifennu y gellir eu llwytho yn awtomatig i systemau Gwasanaethau Gweithgynhyrchu Electronig heb i awdurdodau lleol unigol orfod siarad â'u cyflenwyr fesul achos. Symleiddio'r broses HEF Er ein bod yn cefnogi gallu'r dinesydd i gwblhau'r HEF i gofrestru hefyd mewn un broses ddi-dor, byddai'n angenrheidiol i'r geiriad ar y cyfathrebiad ystyried, os nad yw eu rhifau Yswiriant Gwladol ganddynt wrth law, eu bod nhw'n dal yn gallu llenwi'r HEF ac yna chwblhau eu cofrestrriad yn ddiweddarach. Fel arall, rydym yn ofni y gall fod llai o bobl yn llenwi'r HEF. Cyflenwyr Gwasanaethau Gweithgynhyrchu Electronig. Bydd diwygio'r broses ganfasio yn ddibynnol ar gyflenwyr Gwasanaethau Gweithgynhyrchu Electronig ac mae gennym bryderon o ran sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i ddatblygu'r ymarferoldeb a sicrhau bod digon o brofion ar gyfer y defnyddiwr. Fel yn achos cyflwyno'r IER, y Llywodraeth ganolog ddylai dalu'r gost ariannol o ailddatblygu systemau meddalwedd i fodloni'r newidiadau gweithdrefnol sydd wedi eu deddfu i weinyddu'r cofrestru etholiadol. Ni ddylai'r baich ariannol hwn gael ei roi ar y Swyddogion Cofrestru Etholiadol. Yn yr un modd, dylid ymgorffori'r gwaith o ailddatblygu'r systemau meddalwedd yn eu prif raglenni ac ni ddylai fod yn rhywbeth ychwanegol i'r systemau presennol. Paru Data Cenedlaethol Er ein bod yn falch o ddysgu y bydd llai o gyfyngiadau ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol sy'n anfon eu data i'r Adran Gwaith a Phensiynau na phan gyflwynwyd Cofrestru Etholiadol Unigol, byddem yn croesawu rhagor o fanylion am y broses a'r amserlenni y bydd Swyddogion

Cofrestru Etholiadol yn gorfod gweithio iddynt. Hyblygrwydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol Dylid ystyried caniatáu ar gyfer disgrisiwn y Swyddogion Cofrestru Etholaethol ynghylch a ddylid cynnal canfasiad llawn ar unrhyw adeg, gan ganiatáu i Swyddogion Cofrestru Etholaethol wneud yr hyn y maent yn teimlo sy'n angenrheidiol yng ngoleuni amgylchiadau lleol cyffredinol.. Estyniad i'r broses gofrestru dreigl Credwn y dylai'r misoedd cofrestru treigl gael eu hymestyn i gynnwys mis Hydref a mis Tachwedd. Byddai hyn er budd yr etholwr a'r gweinyddwr. Diwygio Etholiadol yng Nghymru Mae'n rhaid nodi y bydd gweinyddiaeth y canfasio yn ymgorffori estyniad yr etholfraint i gynnwys unigolion sy'n 16 oed yng Nghymru, a fydd hefyd yn digwydd yn 2020. Cynhelir etholiadau nesaf Llywodraeth Cymru yn 2021. Rydym yn pryderu y gallai newidiadau i'r canfasiad diwygiedig effeithio ar y gyfradd gofrestru, nid ar gyfer yr etholwyr cyffredinol yng Nghymru yn unig, ond hefyd ar gyfer y rhai sy'n cofrestru i bleidleisio am y tro cyntaf. Mae angen i Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw newidiadau o'r fath yn effeithio ar bleidlais 2021 ac y bydd y broses gofrestru yn cael adnoddau llawn, yn ariannol ac yn ymarferol. Roeddem wedi credu y gellid gohirio'r diwygiadau canfasio yng Nghymru am gyfnod o ddeuddeg mis, ond byddai hyn wedyn yn gwrthdaro â'r etholiadau llywodraeth leol llawn posibl yng Nghymru pan fyddai'r pryderon uchod yn codi unwaith eto.

Sylwadau eraill

Yn ychwanegol at hyn, rydym wedi amlygu ychydig o argymhellion o'n hadroddiad ôl-etholiadol 2017 isod, "It's time for urgent and positive Government action – The AEA's review of the 2017 local government elections and the UK Parliamentary general election" y gellid ystyried hynny yn rhan o'r prosiect diwygio canfasio. Yn achos argymhelliad 2017 - 15, byddai hyn yn helpu'r broses diwygio canfasio drwy ddarparu cyfeiriadau e-bost: Argymhelliad 2017 – 14 Yn rhan o'r rhaglen waith bresennol, dylai Swyddfa'r Cabinet gynnwys ffrydiau gwaith a fydd yn: Darparu ateb effeithiol i broblem barhaus dyblygu cofrestriadau; Datblygu a thynnu gwybodaeth reoli o'r systemau meddalwedd rheoli etholiadol a fydd o gymorth i Swyddogion Cofrestru Etholiadol wrth iddynt reoli eu cofrestrau etholiadol; Lleihau biwrocratiaeth yn y prosesau cofrestru, yn ystod a thu allan i'r cyfnodau canfasio; Galluogi data i gael eu rhannu'n well er mwyn symleiddio'r prosesau cofrestru; Darparu ateb effeithiol ar gyfer cofrestru unigolion mewn sefydliadau megis prifysgolion, colegau, cartrefi gofal preswyl a thai amlfeddiannaeth. Dylai Swyddfa'r Cabinet nodi amserlen glir hefyd o ran pryd y bydd pob un o'r materion hyn yn cael eu hystyried. Argymhelliad 2017 – 15 Dylai darparu cyfeiriad e-bost fod yn orfodol ar gyfer pob cais i gofrestru i bleidleisio trwy'r gwasanaeth digidol.

1 Rydym yn cynnig gwneud cwblhau'r broses paru data genedlaethol yn orfodol, gyda data lleol yn cael eu paru yn ôl disgrisiwn y Swyddogion Cofrestru Etholiadol. A ydych yn cytuno mai dyma'r peth cywir i'w wneud?

Ydym

Os Na, esboniwch eich rhesymau.: Bydd paru data yn caniatáu i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gadarnhau manylion aelwydydd heb fod angen cael ymateb. Mae'n rhaid mai dyma'r ffordd ymlaen, a bydd yn arbed amser ac arian mewn oes o ymwybyddiaeth gyllidol gynyddol. Rydym hefyd yn croesawu gallu Swyddogion Cofrestru Etholiadol i benderfynu a yw'r data paru lleol yn ddefnyddiol yn eu hardal a pha ffynonellau data fydd o werth. Os cyflawnir cyfradd paru uchel o'r data paru cenedlaethol, efallai na fydd cynnal ymarferiad lleol yn gost-effeithiol.

2 Rydym yn cynnig bod rhaid troi unrhyw eiddo ag etholwr coch yn eiddo coch. Ni fydd yr eiddo yn wyrdd oni bai bod 100% o'r etholwyr yn yr eiddo yn wyrdd yn unigol. A ydych yn cytuno mai dyma'r peth cywir i'w wneud?

Ydym

Os Na, esboniwch eich rhesymau.: Er mwyn sicrhau bod cofrestr yn gywir, dylai unrhyw eiddo ag etholwr coch ofyn am ymateb.

3 A ydych yn credu y dylid mandadu safon ofynnol ar gyfer cywirdeb y setiau data sy'n cael eu cadw'n lleol?

Nac ydym

Esboniwch eich rhesymau.: Mater i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fyddai penderfynu a yw safon set data lleol yn ddigon da. Er y byddai canllawiau cenedlaethol yn ddefnyddiol.

4 A ydych yn cytuno y dylid gyrru eiddo gwag ac eiddo sy'n wag am gyfnod o amser drwy'r broses paru data?

Ydym

Esboniwch eich rhesymau.: Nid oes fawr o bwynt ceisio canfasio eiddo y gwyddys eu bod nhw'n wag yn yr hirdymor. Fodd bynnag, efallai y dylid paru am yr ail dro yn ddiweddarach yn ystod y cyfnod canfasio i sicrhau bod yr eiddo'n parhau i fod yn wag.

5 A ydych yn cytuno y dylid eithrio ceisiadau diweddar i gofrestru o'r cam data gan eu nodi yn wyrdd yn awtomatig?

Ydym

Os ydych, pa gyfnod yr ydych yn credu y dylid ei ddiffinio fel "diweddar" (1 mis, 2 fis, yn gysylltiedig â'r diweddariad misol diwethaf)?

Esboniwch.: Os yw etholwyr newydd symud i mewn i eiddo (a'r preswylwyr blaenorol wedi ei ddileu) yna gellir ystyried yr eiddo i fod yn gyfredol. Byddai cysylltu â nhw eto yn ddryslyd.

Dylai hyn fod yn fater i bob Swyddog Cofrestru Etholiadol gan y bydd ganddynt yr wybodaeth leol angenrheidiol ynghylch symudedd eu poblogaeth. Efallai y byddai uchafswm o 3 mis yn addas.

Os Na, esboniwch eich rhesymau.:

6 A ydych yn cytuno â'r penderfyniad i beidio â chynnwys blwch ticio ar gyfer meddiannaeth unigol ar ffurflenni cais cofrestru?

Ydym

Esboniwch eich rhesymau.: Ceir problemau sylweddol gydag etholwyr yn ticio'r blwch meddiannaeth unigol yn anghywir. Dylid ei ddileu. Efallai y dylai'r ITR ofyn am enwau'r holl breswylwyr eraill yn yr eiddo.

7 A ydych yn cytuno y dylid caniatáu defnyddio e-bost fel y dull cyntaf o gysylltu ar gyfer aelwydydd yn Llwybr 1 (lle cynhelir cyfeiriad e-bost), ac yn dilyn hynny, gysylltu ar bapur os na cheir ymateb?

Ydym

Os Na, esboniwch eich rhesymau.: Yn yr oes fodern, dylai etholwyr fod yn gallu cyfathrebu gan ddefnyddio eu dull dewisedig. Efallai y dylai hyn gynnwys cysylltu drwy neges destun hefyd.

8 A ydych yn cytuno â'r broses arfaethedig ar gyfer Llwybr 1?

Ydym

Esboniwch pam.: Ni all etholwyr ddeall y rheidrwydd i gadarnhau eu manylion bob blwyddyn ac mae ein galluogi ni i gysylltu â nhw heb fod angen iddynt ymateb yn gam ymlaen. Bydd hefyd yn cyflawni arbedion ariannol i awdurdodau lleol y mae eu hangen yn fawr. Dylid ystyried cyfathrebu ym mhob ffordd yn ogystal ag e-bost (e.e. negeseuon testun, apiau symudol)

9 A ydych yn cytuno â'r cynnig i eithrio gweithgarwch dilynol gorfodol (ymweliadau cartref, ac ati) ar gyfer aelwydydd sydd wedi eu hanfon drwy Lwybr 1?

Ydym

Esboniwch pam.: Ydym, gan fod defnydd gwell o ddata yn caniatáu ateb mwy cost-efeithiol i sicrhau canfasio cywir.

10 A ydych yn cytuno â'r broses arfaethedig ar gyfer Llwybr 2?

Ydym

Esboniwch pam. : Mae'r rhain yn eiddo lle bo newid yn debygol, felly mae angen canfasiad 'llawnach' arnynt.

11 A ydych yn cytuno y dylai cysylltu yn bersonol (curo ar ddrws neu alwad ffôn) fod yn elfen orfodol o'r canfasiad diwygiedig?

Ydym

Esboniwch pam.: Mae ymweliad personol gan ganfaswyr yn caniatáu i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol helpu llawer o etholwyr a all fod yn cael anhawster wrth gofrestru, a gwyddys bod hyn yn cynyddu'r ymateb.

12 A oes mathau o eiddo sy'n ychwanegol at y rhai a nodir uchod yr ydych yn credu y dylid eu cyfeirio at Lwybr 3?

Darparwch restr gan roi eich rhesymau.: O bosibl, er na ellir nodi dim yn y maes hwn. Credwn y dylid ystyried y canlynol:

13 A ydych yn credu mai hon yw'r broses gywir i ddelio â'r eiddo hyn?

Ydym

Os Na, a allwch chi awgrymu dull arall?: Mae'r broses a amlinellir yn gywir ar gyfer yr eiddo hyn, ond dylai'r data a ddarperir fod mewn fformat y gall Swyddog Cofrestru Etholiadol ei ddefnyddio.

14 A ydych yn credu mai anfon yr eiddo hyn i Lwybr 2, y canfasiad llawn, os na fydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gallu cael gafael ar ddata, yw'r amddiffyniad cywir ar gyfer yr eiddo hyn?

Ydym

Esboniwch eich rhesymau.: Os nad yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen, yna dylai'r eiddo ddilyn Llwybr 2.

15 A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai darpar etholwyr/ etholwyr posibl gael eu cynnwys yn y broses o baru data a'r cyfathrebiadau canfasio?

Nac ydym

Os Na, esboniwch pam.: Mae angen gwahaniaethu rhwng etholwyr cofrestredig a rhai a allai fod yn etholwyr o bosibl, neu fel arall bydd etholwyr yn drysu. Heb ei Ateb

Eglurwch beth yw'r rhain.:

16 Beth ydych chi'n credu yw'r problemau gyda'r Ffurflen Ymholiad Aelwyd bresennol?

Sylwadau:: Mae'r ffurflenni'n rhy hir ac yn cynnwys gormod o wybodaeth. Yng Nghymru, caiff dwy ffurflen A3 eu hanfon i bob eiddo. Mae hyn yn gostus ac yn anodd i'r etholwyr ac yn anodd i'r staff ei brosesu. Efallai y byddai un ffurflen ddwyieithog yn symlach ac yn haws pe byddai wedi ei dylunio'n dda.

Mae etholwyr yn cwblhau'r HEF gan gredu eu bod nhw wedi cofrestru. Nid ydynt yn sylweddoli bod dau gam i'r broses hon. Gellid helpu'r mater pe byddai'r HEF a'r ITR yn edrych yn llai tebyg i'w gilydd.

17 A oes unrhyw wybodaeth y gellir ei thynnu allan o'r HEF?

Sylwadau:: Gellid cyfuno Adrannau 2 a 3 a'u gwneud nhw'n llai fel y gall etholwyr ychwanegu etholwyr yn yr un lle ag y maent yn newid etholwyr presennol. Mae'r rhan fwyaf o'r llythyr ar dudalen 1 yn ddiangen, a gallai'r negeseuon ynghylch ymdrin â data fod ar wahân i'r ffurflen. Dylid dileu 'Dewisol' lle y mae'n gofyn i etholwyr am gyfeiriad e-bost.

18 A oes unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu darparu mewn cysylltiad â'r model newydd arfaethedig ar gyfer y canfasiad blynyddol, nad ydynt eisoes wedi eu cynnwys mewn cwestiwn arall?

Sylwadau:: Croesewir y gwaith o foderneiddio'r broses ganfasio. Mae angen iddo ystyried gofynion y Gymraeg wrth gynnig newidiadau i ffurflenni. Dylid cynnwys y ddarpariaeth i gynnal canfasiad 'llawn' petai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn credu ei bod yn angenrheidiol neu y dylid ei chynnwys.

1 Rydym yn cynnig gwneud cwblhau'r broses paru data cenedlaethol yn orfodol, gyda data lleol yn cael eu paru yn ôl disgrisiwn y Swyddogion Cofrestru Etholiadol. A ydych yn cytuno mai dyma'r peth cywir i'w wneud?

Ydym

Os Na, esboniwch eich rhesymau.: Cytuno y dylai paru data lleol ychwanegol gael ei wneud yn ôl disgrisiwn y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Os cyflawnir canran baru uchel drwy'r ymarfer paru data cenedlaethol, gallai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol deimlo nad yw paru data lleol ychwanegol yn angenrheidiol. Yn yr un modd, os cyflawnir canran isel o ddata paru o'r broses baru genedlaethol, gallai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol deimlo y byddai'n fanteisiol ychwanegu data paru lleol atodol er mwyn lleihau nifer y ffurflenni a fyddai angen mynd drwy'r llwybr olrhain llawn (llwybr 2) gan fanteisio i'r eithaf ar y nifer sy'n mynd drwy lwybr 1.

2 Rydym yn cynnig bod rhaid troi unrhyw eiddo ag etholwr coch yn eiddo coch. Ni fydd yr eiddo yn wyrdd oni bai bod 100% o'r etholwyr yn yr eiddo yn wyrdd yn unigol. A ydych yn cytuno mai dyma'r peth cywir i'w wneud?

Ydym

Os Na, esboniwch eich rhesymau.:

3 A ydych yn meddwl y dylid mandadu safon ofynnol ar gyfer cywirdeb y setiau data sy'n cael eu cadw'n lleol?

Ydym

Esboniwch eich rhesymau.: Dylid cael safon ofynnol – dylai pob cyfeiriad fod â Chyfeirnod Eiddo Unigryw gyda phob cod post wedi ei wirio.

4 A ydych yn cytuno y dylid gyrru eiddo gwag ac eiddo sy'n wag am gyfnod o amser drwy'r broses paru data?

Ydym

Esboniwch eich rhesymau.: Os ydynt yn paru yn bendant â'r Dreth Gyngor, yna dylai fod gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol y disgrisiwn i ddychwelyd statws y ffurflen etholiadol, ac felly arbed arian ac amser o anfon canfasiwr i'r eiddo. Newydd gynnal ymarfer ar ganfasiad blynyddol 2018, ac allan o 11,000 eiddo roedd 3,500 yn paru'n union, ac felly arbedwyd yr amser a'r arian o anfon canfasiwr i'r 3,500 eiddo hyn. Os yw eiddo'n "wyrdd" ac felly'n cael eu hanfon drwy lwybr 1; pe byddai unrhyw etholwyr wedyn yn symud i mewn, byddai ffurflen wedi ei hanfon i'r eiddo, ac yn ddamcaniaethol byddai ar gael iddynt ei llenwi. Ar ben hynny, mae nifer o Swyddogion Cofrestru Etholiadol eisoes yn paru data yn lleol gyda ffynonellau data megis y Dreth Gyngor ac yn anfon ITRau yn uniongyrchol at etholwyr newydd drwy gydol y flwyddyn.

5 A ydych yn cytuno y dylid eithrio ceisiadau diweddar i gofrestru o'r cam data gan eu nodi yn wyrdd yn awtomatig?

Ydym

Os ydych, pa gyfnod o amser ydych yn credu y dylid ei ddiffinio fel "diweddar" (1 mis, 2 fis, yn gysylltiedig â'r diweddariad misol diwethaf)? Esboniwch.: Bydd ceisiadau diweddar ar y gofrestr etholiadol wedi mynd drwy broses wirio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, a bydd llythyrau wedi eu hanfon allan i gadarnhau bod rhywun yn preswyllo yn yr eiddo. Mewn ychwanegiadau diweddar iawn, gallai data'r gofrestr fod yn fwy diweddar na data'r Adran Gwaith a Phensiynau. Felly, mae gan y syniad hwn rai rhinweddau. Credwn y dylid diffinio "diweddar" fel oddeutu 1 mis.

Os Na, esboniwch eich rhesymau.:

6 A ydych yn cytuno â'r penderfyniad i beidio â chynnwys blwch ticio ar gyfer meddiannaeth unigol ar ffurflenni cais cofrestru?

Ydym

Esboniwch eich rhesymau. :Mae gennym dystiolaeth bod deiliaid tai wedi ticio'r blwch hwn mewn camgymeriad.

7 A ydych yn cytuno y dylid caniatáu defnyddio e-bost fel y dull cyntaf o gysylltu ar gyfer aelwydydd yn Llwybr 1 (lle cynhelir cyfeiriad e-bost), ac yn dilyn hynny, gan gysylltu ar bapur os na cheir ymateb?

Ydym

Os Na, esboniwch eich rhesymau.: Ein dyletswydd ni yw cyfrannu at helpu'r amgylchedd, ac os bydd yr ymateb yn llai na 7,000 o ffurflenni, dyweder, mae hynny'n gadarnhaol iawn. Mae'r ymatebion ar-lein i ganfasio yn tyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn sicr, dylid darparu'r dewis hwn i breswylwyr sy'n dymuno cyflawni nifer o dasgau ar-lein, ac sydd wedi arfer gwneud hynny.

8 A ydych yn cytuno â'r broses arfaethedig ar gyfer Llwybr 1?

Ydym

Esboniwch pam.: Yn cytuno mai dyma'r ffordd synhwyrol ymlaen ond mae'n rhaid ei gwneud hi'n glir bod angen i etholwyr newydd, pobl ifanc sy'n ennill neu'n cyflawni rhywbeth sy'n enwedig o berthnasol, gofrestru. Dylai'r dewis e-bost gynnwys dolen sy'n arwain yn syth i wefan gov.uk.

9 A ydych yn cytuno â'r cynnig i eithrio gweithgarwch dilynol gorfodol (ymweliadau cartref, ac ati) ar gyfer aelwydydd sydd wedi eu hanfon drwy Llwybr 1?

Ydym

Esboniwch pam.: Dylid rhoi'r disgrisiwn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol fel y gallant fynd ar ôl yr ardaloedd hynny lle ceir mwy o symud megis ardaloedd lle bo amlfeddiannaeth, llety ar rent, ond yn dewis peidio â gwneud hynny mewn ardaloedd mwy sefydlog.

10 A ydych yn cytuno â'r broses arfaethedig ar gyfer Llwybr 2?

Nac ydym

Esboniwch pam. : Rydym yn cytuno y dylid anfon deiliaid tai nad oes modd eu paru ar hyd y llwybr hwn, ond rydym yn anghytuno â hyd at dri chyswllt. Credwn fod dau gyswllt yn ddigon - gyda'r ail yn gyswllt personol.

11 A ydych yn cytuno y dylai cysylltu yn bersonol (curo ar ddrws neu alwad ffôn) fod yn elfen orfodol o'r canfasiad diwygiedig?

Nac ydym

Esboniwch pam.: Dylai fod yn ôl disgrisiwn y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Bernir rhai ardaloedd yn anodd eu canfasio neu'n anniogel, felly disgrisiwn y Swyddog Cofrestru Etholiadol a ddylai benderfynu a allant recriwtio neu ei barnu hi'n ddiogel i yrru canfasiwr i'r ardaloedd hynny.

12 A oes mathau o eiddo sy'n ychwanegol at y rhai a nodir uchod yr ydych yn credu y dylid eu cyfeirio at Llwybr 3?

Rhestrwch a rhowch eich rhesymau.: Canolfannau Lloches, Barics Gwasanaeth

13 A ydych yn credu mai hon yw'r broses gywir i ddelio â'r eiddo hyn?

Ydym

Os na, a allwch chi awgrymu dull arall?:

14 A ydych yn credu mai anfon yr eiddo hyn i Llwybr 2, y canfasiad llawn, os na fydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gallu cael gafael ar ddata, yw'r amddiffyniad cywir ar gyfer eiddo hyn?

Nac ydym

Esboniwch eich rhesymau.: Os nad yw'r unigolyn sy'n gyfrifol yn ymateb i lwybr 3, yna maent yn annhebygol o ymateb i lwybr 2. Mae hyn yn gostus ac yn cymryd llawer o amser.

15 A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai darpar etholwyr/etholwyr posibl gael eu cynnwys yn y broses o baru data a'r cyfathrebiadau canfasio?

Nac ydym

Os Na, nodwch pam.: Nid yw darpar etholwr/etholwr posibl yn etholwr, ac felly ni ddylid ei gynnwys gan y byddai hyn yn arwain at ddeiliad y tŷ yn tybio ei fod wedi cofrestru os ydyw wedi ei restru ar y cyfathrebiad. Pe byddem yn mynd i lawr y llwybr hwn, yna byddai'n rhaid i'r cyfathrebiadau fod yn glir iawn ac wedi eu profi gan ddefnyddwyr. Heb ei Ateb

Eglurwch beth yw'r rhain.:

16 Beth ydych chi'n credu yw'r problemau gyda'r Ffurflen Ymholiad Aelwyd bresennol?

Sylwadau.: Diffyg dealltwriaeth gan ddeiliaid tai o ran pam y dylent gael ITR pan maent, yn eu tŷb nhw, eisoes wedi rhoi gwybod ichi eu bod nhw yno. Mae'r broses HEF ar-lein yn caniatáu ichi wneud yr holl broses gofrestru - pam na ellir gwneud hyn ar y fersiwn papur? Oherwydd ein bod ni'n amgáu amlen ragdaledig, mae deiliaid tai yn tybio bod angen ymateb ysgrifenedig arnom, felly maen nhw'n dychwelyd yr HEF drwy'r post, ac mae llai yn ymateb drwy neges destun, rhadffôn, neu ar-lein. Nid yw'n glir bod yn rhaid iddynt ymateb i'r ffurflen hon yn ôl y gyfraith os nad oes unrhyw Newid. Gellid ychwanegu maes Dyddiad Geni ar gyfer unigolion 16/17 oed (neu 14/15 oed yng Nghymru yn y dyfodol). Bob blwyddyn, rydym yn anfon ITRau i etholwyr sy'n 16, ond nad ydynt yn troi'n 18 cyn diwedd y flwyddyn ganfasio nesaf. Mae'r etholwyr hyn yn gallu mynd ar-lein a chofrestru. Fodd bynnag, pan maent yn dod yn eu holau ar y system, maent yn cael eu rhoi o'r neilltu ac yn cael eu gwahodd ar ôl cyhoeddi, yn ystod y flwyddyn gofrestru nesaf ar ôl 1 Rhagfyr. Mae llawer o'r etholwyr hyn wedi pasio'r gwiriadau Cofrestru Etholiadol Unigol, a gallwch gael y sefyllfa chwerthinllyd o rywun yn gwneud cais i gofrestru yn llwyddiannus ar 23 Tachwedd, yn cael ei roi o'r neilltu ac yn cael ITR newydd wythnos yn ddiweddarach, ar ôl cyhoeddi ar 1 Rhagfyr. Gyda maes Dyddiad Geni ar yr HEF, gallai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol sicrhau mai i etholwyr a fydd yn troi yn 18 cyn 30 Tachwedd y flwyddyn ganlynol yn unig y byddant yn anfon ITR.

17 A oes unrhyw wybodaeth y gellir ei thynnu allan o'r Ffurflen Ymholiad Aelwyd?

Sylwadau.: Dylid newid y cwestiwn pleidleisio drwy'r post/dirprwy i drwy'r post yn unig. Dim ond oherwydd amodau penodol yn unig y gallwch bleidleisio trwy ddirprwy yn barhaol, felly dylid ei eithrio.

18 A oes unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu darparu mewn cysylltiad â'r model newydd arfaethedig ar gyfer y canfasiad blynyddol, nad ydynt eisoes wedi eu cynnwys mewn cwestiwn arall?

Cyflwynwyd i **Proposals for reform of the annual canvass**

Cyflwynwyd ar **2018-11-09 10:49:46**

1 Rydym yn cynnig gwneud cwblhau'r broses paru data cenedlaethol yn orfodol, gyda data lleol yn cael ei baru yn ôl disgrisiwn y Swyddogion Cofrestru Etholiadol. A ydych yn cytuno mai dyma'r ymagwedd gywir?

Ydym

Os na, esboniwch eich rhesymau.: Fel Cofrestru Etholiadol Unigol (cadarnhad treial byw Mehefin 2014) ar y cyfan, roedd y broses paru data cenedlaethol yn llwyddiannus ar gyfer y rhan fwyaf o'r cofnodion a gedwir ar gofrestr yr etholwyr. Mae paru data yn lleol hefyd yn profi yn fuddiol; fodd bynnag gall fod yn anodd i rai awdurdodau lleol gael gafael ar ddata lleol ac mae'n hanfodol bod gan yr awdurdod lleol hyder bod y ffynhonnell data lleol yn gyfredol ac yn gywir.

2 Rydym yn cynnig bod rhaid troi unrhyw eiddo ag etholwr coch yn eiddo coch. Ni fydd yr eiddo yn wyrdd oni bai bod 100% o'r etholwyr yn yr eiddo yn wyrdd yn unigol. A ydych yn cytuno mai dyma'r ymagwedd gywir?

Ydym

Os Na, esboniwch eich rhesymau.: Dylai unrhyw eiddo sy'n nodi data sydd wedi ei baru yn goch gael ei archwilio ymhellach a dilyn proses HEF sy'n fwy cynhwysfawr er mwyn nodi dileadau posibl a newidiadau i'r gofrestr.

3 A ydych chi'n meddwl y dylid mandadu safon ofynnol ar gyfer cywirdeb y setiau data sy'n cael eu cadw'n lleol?

Ydym

Esboniwch eich rhesymau.: Er mwyn cynhyrchu cofrestr gyfredol, dylai'r holl ddata a ddefnyddir at ddibenion cofrestru fod yn gywir iawn, gallai gostwng y safonau cywirdeb arwain at anghysonderau ar gofrestr yr etholwyr.

4 A ydych yn cytuno y dylid gyrru eiddo gwag ac eiddo sy'n wag am gyfnod o amser drwy'r broses paru data?

Ydym

Esboniwch eich rhesymau.: Yn aml, gall nifer sylweddol o eiddo gwag/sy'n wag am gyfnod o amser gael eu paru â data lleol megis y dreth gyngor gan nad yw'r gwahanol eithriadau a'r gostyngiadau ar gyfer eiddo heb eu meddiannu yn cael eu hadolygu'n flynyddol gydag adrannau'r dreth gyngor, ac felly maent yn profi i fod yn adlewyrchiad cywir o amgylchiadau'r eiddo.

5 A ydych chi'n cytuno y dylid eithrio ceisiadau diweddar i gofrestru o'r cam data gan eu nodi yn wyrdd yn awtomatig?

Ydym

Os ydych, pa gyfnod ydych yn credu y dylid ei ddiffinio fel "diweddar" (1 mis, 2 fis, yn gysylltiedig â'r diweddariad misol diwethaf)? Esboniwch.: Mae etholwyr yn drysu yn aml pan fyddant yn cael HEF a ITR, felly os gellir ystyried ITRau diweddar cyn dechrau'r broses HEF, fe ddylai hyn leihau dryswch i'r etholwr. Mae gan rai ardaloedd lefel uwch o newid nag eraill ac felly dylai 'diweddar' gael ei gadw ar gyfer isafswm o chwe wythnos. Gyda'r rheol hon, dylai ystyriaeth ddechrau ar ddyddiad y cais, y dyddiad prosesu neu'r diweddariad misol. Byddai dyddiad y cais yn fwy priodol fel hyn gan y gallai dibynnu ar yr hysbysiad addasu misol fod hyd at 7-8 wythnos ar ôl dyddiad y cais.

Os Na, esboniwch eich rhesymau.:

6 A ydych yn cytuno â'r penderfyniad i beidio â chynnwys blwch ticio ar gyfer meddiannaeth unigol ar ffurflenni cais cofrestru?

Ydym

Esboniwch eich rhesymau.: Mae cyflwyniad y blwch ticio ar gyfer deiliadaeth sengl wedi achosi cryn dipyn o ddryswch. Caiff hyn ei ddehongli yn anghywir pan fo etholwyr yn

gwblhau'r ITRau ac mae gan hyn effaith ganlyniadol ar brosesu cofnodion etholwr eraill yn yr eiddo.

7 A ydych yn cytuno y dylid caniatáu defnyddio e-bost fel y dull cyntaf o gysylltu ar gyfer aelwydydd yn Llwybr 1 (lle cynhelir cyfeiriad e-bost), ac yn dilyn hynny, gysylltu ar bapur os na cheir ymateb?

Nac ydym

Os na, esboniwch eich rhesymau.: Er y gall cyfeiriadau e-bost fod yn ddefnyddiol i unigolion, ni ddylid e-bostio gohebiaeth ar lefel aelwyd oherwydd efallai na fyddai'n cyrraedd yr unigolyn mwyaf priodol i'w gwblhau. Er enghraifft, os mai'r unig gyfeiriad e-bost sy'n cael ei gadw yw cyfeiriad e-bost ar gyfer cais gan unigolyn sy'n 18 oed, efallai na fyddai'r cyfeiriad e-bost hwn yn cyrraedd y gynulleidfa darged o ddeiliaid tai cyfrifol megis rhiant, gwarcheidwad, ac yn y blaen.

8 A ydych yn cytuno â'r broses arfaethedig ar gyfer Llwybr 1?

Nac ydym

Esboniwch pam.: Yn cytuno ac eithrio e-bostio yn y lle cyntaf.

9 A ydych yn cytuno â'r cynnig i gadw gweithgarwch dilynol gorfodol (ymweliadau cartref, ac ati) allan ar gyfer aelwydydd sydd wedi eu hanfon drwy Llwybr 1?

Ydym

Esboniwch pam.: Mae Llwybr 1 yn dal i ddarparu cyfle i gasglu etholwyr newydd a/neu newidiadau posibl, felly ni ddylai unrhyw weithgaredd dilynol pellach fod yn ofynnol. Gall paru data lleol yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y gofrestr mor ddiweddar â phosibl pan fo'r broses ganfasio yn cychwyn fod yn gymorth mawr i hyn.

10 A ydych yn cytuno â'r broses arfaethedig ar gyfer Llwybr 2?

Ydym

Esboniwch pam. : Mae Llwybr 2 yn caniatáu mwy o hyblygrwydd wrth gael gwybodaeth gan bobl nad ydynt yn ymateb.

11 A ydych yn cytuno y dylid cysylltu yn bersonol (curo ar ddrws neu alwad ffôn) fod yn elfen orfodol o'r canfasiad diwygiedig?

Nac ydym

Esboniwch pam.: Mae curo ar ddrysau yn elfen ddrudd o'r broses ganfasio bresennol ac nid yw'n arwain at ganlyniadau llwyddiannus o reidrwydd. Yn dilyn yr HEF papur, gallai cais arall i baru data yn genedlaethol a/neu baru data yn lleol ddatrys y mater (yn enwedig os oes cyfnod o 3-4 mis wedi mynd heibio ers y broses paru data cychwynol). Yn ogystal â hyn, efallai y byddai llythyr gyda'r HEF sydd wedi ei eirio'n gryfach yn annog ymateb. Nid yw cyswllt personol yn cyflawni cyfraddau ymateb uchel a gall arwain at bryd o dafod wrth y drws neu ar y strydoedd.

12 A oes mathau o eiddo sy'n ychwanegol at y rhai a nodir uchod yr ydych yn credu y dylid eu cyfeirio at Llwybr 3?

Darparwch restr gan roi eich rhesymau.: Gellid ystyried eiddo gwarchod lle bo swyddogion yn wardeiniaid ar y safle hefyd (gallai'r Swyddog Cyfrifol fod o'r Gymdeithas Dai berthnasol er enghraifft). Gall safleoedd carafanau, cychod sy'n gartrefi a llety ar gyfer nyrsys mewn ysbytai fod yn anodd eu canfasio mewn ffordd draddodiadol hefyd, ac efallai y byddant yn elwa o Llwybr 3.

13 A ydych yn credu mai dyma'r broses gywir i ddelio â'r eiddo hyn?

Ydym

Os Na, a allwch chi awgrymu dull arall?: Dylid nodi, ar ôl cael gwybodaeth preswyllo ar HEF, efallai y byddai'n dal yn amhriodol cyhoeddi ITRau i etholwyr cymwys. Er mai ar gyfer cam canfasio y HEF y mae'r broses newydd yn darparu, bydd y cam nesaf, sef yr ITR, yn parhau i fod yn broblem (yn enwedig ar gyfer cartrefi nyrsio neu gartrefi gofal) ac mae angen mynd i'r afael â hyn.

14 A ydych yn credu mai anfon yr eiddo hyn i Lwybr 2, y canfasiad llawn, os na fydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gallu cael gafael ar ddata, yw'r amddiffyniad cywir ar gyfer eiddo hyn?

Ydym

Esboniwch eich rhesymau.: Ie, mae angen mesurau megis llwybr 2 wrth gefn fel y gellir cael yr wybodaeth HEF berthnasol ar gyfer pob eiddo.

15 A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai darpar etholwyr/etholwyr posibl gael eu cynnwys yn y broses o baru data a'r cyfathrebiadau canfasio?

Ydym

Os Na, esboniwch pam.: Mae peidio â chynnwys darpar etholwyr/etholwyr posibl yn achosi dryswch gan fod preswylwyr yn dweud yn aml eu bod nhw wedi cwblhau ffurflen i gofrestru, ond mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr wybodaeth a gyflwynir iddynt ar yr HEF. Mae dangos gwybodaeth gyfredol am ddarpar etholwyr/etholwyr posibl ar yr HEF yn adlewyrchiad mwy cywir o'r data a gedwir gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol. Bydd dangos etholwyr sydd wedi cofrestru a data arall sy'n cael ei gadw yn helpu â dyblygu hefyd.

Nac ydym

Eglurwch beth yw'r rhain.: Dylid ystyried y geiriad a ddefnyddir wrth ymyl darpar etholwyr/etholwyr posibl ar yr HEF er mwyn osgoi dryswch a sicrhau nad yw pobl yn tybio eu bod nhw yn etholwyr cofrestredig.

16 Beth ydych chi'n credu yw'r problemau gyda'r Ffurflen Ymholiad Aelwyd bresennol?

Sylwadau.: Mae dwy ffurflen A3 yn cael eu darparu yng Nghymru: un yn Saesneg, yr ail yn Gymraeg. Mae hyn yn achosi cryn dipyn o gost ychwanegol i'w gynhyrchu ac un ffurflen yn unig sy'n cael ei dychwelyd, felly mae'r ffurflen yn yr ail iaith yn cael ei diystyru. Roedd ffurflenni canfasio blaenorol yn cael eu cynhyrchu fel un ffurflen A4 gyda mewnosodiad. Bydd ffurflen ddwyieithog A4 yn helpu i arbed costau a gwastraff. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo'r broses o sganio gan fod sganwyr mwy wedi eu prynu er mwyn sganio A3, er hynny, sganwyr A4 sydd eu hangen ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwaith sganio arall.

17 A oes unrhyw wybodaeth y gellir ei thynnu allan o'r Ffurflen Ymholiad Aelwyd?

Sylwadau.: Caiff adran 2 ei chwblhau ag etholwyr ychwanegol yn aml (yn hytrach nag adran 3) felly gellid cyfuno adrannau 2 a 3. Gallai gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch cymhwysedd, y gofrestr agored, y datganiad preifatrwydd, pleidleisio absennol fod yn daflen atodol neu wedi ei haralleirio er mwyn symleiddio hyn gyda blychau sylwadau ar ochr dde y ffurflen gydag esboniadau.

18 A oes unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu darparu mewn cysylltiad â'r model newydd arfaethedig ar gyfer y canfasiad blynyddol, nad ydynt eisoes wedi eu cynnwys mewn cwestiwn arall?

Sylwadau.: Er mwyn bod â thri llwybr canfasio posibl, bydd angen ymarferoldeb meddalwedd digonol i reoli pob proses yn effeithiol a sicrhau hefyd bod eiddo llwybr 3 wedi eu nodi ymlaen llaw a'u marcio â'r dewis hwn. Mae angen i adroddiadau ar gamau canfasio amrywiol drwy gydol y broses fod yn rhan o ymarferoldeb y feddalwedd â'r llif gwaith llwybr cywir sy'n gysylltiedig â'r eiddo. Mae paru data yn genedlaethol yn ddibynnol ar gywirdeb y data cenedlaethol a dylai hyn gael ei fonitro gan Swyddfa'r Cabinet er mwyn sicrhau cywirdeb rheolaidd a bod eu cofnodion yn cael eu cadw yn ddiweddar. Mae paru data yn lleol yn ddibynnol ar yr adran berthnasol i fod yn ddiweddar ac yn gywir; dylid cynnal arolygon er mwyn cadarnhau a yw ffynhonnell y data yn gyfredol.

1 Rydym yn cynnig gwneud cwblhau'r broses paru data cenedlaethol yn orfodol, gyda data lleol yn cael ei baru yn ôl disgrisiwn y Swyddogion Cofrestru Etholiadol. A ydych yn cytuno mai dyma'r ymagwedd gywir?

Ydym

Os Na, esboniwch eich rhesymau.: Mae cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn credu y dylai pob Swyddog Cofrestru Etholiadol baru data yn genedlaethol ar sail y canlyniadau a gyflawnwyd yn ystod proses gadarnhau y Cofrestru Etholiadol Unigol. Er ein bod ni'n derbyn bod y gyfradd baru yn newid yn sylweddol ledled y wlad, rydym yn teimlo bod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ffynhonnell dda o ddata ac y dylai pob Swyddog Cofrestru Etholiadol ei defnyddio. Rydym hefyd yn croesawu gallu Swyddogion Cofrestru Etholiadol i benderfynu a yw'r data paru lleol yn ddefnyddiol yn eu hardal a pha ffynonellau data fydd o werth. Byddem yn annog y Llywodraeth i helpu Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ymchwilio pa ffynonellau data, yn ogystal â rhai y maent yn eu defnyddio ar hyn o bryd, fyddai ar gael a sut i weithio gyda phartneriaid er mwyn eu galluogi nhw i gael gafael ar yr wybodaeth hon mewn fformat defnyddiadwy.

2 Rydym yn cynnig bod rhaid troi unrhyw eiddo ag etholwr coch yn eiddo coch. Ni fydd yr eiddo yn wyrdd oni bai bod 100% o'r etholwyr yn yr eiddo yn wyrdd yn unigol. A ydych yn cytuno mai dyma'r ymagwedd gywir?

Ydym

Os Na, esboniwch eich rhesymau.: Er bod cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn tueddu i gytuno â'r egwyddor hon, mae'n werth nodi y gallai'r rhaglen ddiwygio etholiadol yng Nghymru olygu cyfradd paru cenedlaethol sy'n is ar gyfer etholwyr iau (gallai hyn ddibynnu ar setiau paru data cenedlaethol yr Adran Gwaith a Phensiynau) ac o ganlyniad efallai y bydd angen lefel uwch o ddata paru lleol fel y gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol Cymru droi aelwydydd yn 'wyrdd'.

3 A ydych chi'n meddwl y dylid mandadu safon ofynnol ar gyfer cywirdeb y setiau data sy'n cael eu cadw'n lleol?

Ydym

Esboniwch eich rhesymau.: Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, cadarnhaodd cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol ei chefnogaeth i setiau data lleol gorfodol.

4 A ydych yn cytuno y dylid gyrru eiddo gwag ac eiddo sy'n wag am gyfnod o amser drwy'r broses paru data?

Ydym

Esboniwch eich rhesymau.: Er na fydd yn bosibl cynnwys eiddo gwag ac eiddo sy'n wag am gyfnod o amser yn y broses o baru data yn genedlaethol, mae cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn credu dylid defnyddio data paru lleol. Ceir Swyddogion Cofrestru Etholiadol â phoblogaethau sefydlog o etholwyr anghymwys, er enghraifft safleoedd milwrol Americanaidd, a fyddai'n elwa o ddefnyddio'r ffynonellau data lleol, fel y bydd y rhai sydd â chyfrannau uchel o ail gartrefi/tai haf. Byddem hefyd yn awgrymu y rhoir ystyriaeth mewn canllawiau ynghylch a oes rhinwedd mewn argymhell bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn paru eiddo gwag ac eiddo sy'n wag am gyfnod o amser yn ystod mwy nag un pwynt o'r canfasiad, ac o bosibl fel ymarfer ar wahân cyn etholiadau. Er nad yw hyn yn angenrheidiol ar gyfer pob math o eiddo gwag ac eiddo sy'n wag am gyfnod o amser, ceir rhinwedd wrth i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ystyried manteision posibl gweithgaredd o'r fath.

5 A ydych chi'n cytuno y dylid eithrio ceisiadau diweddar i gofrestru o'r cam data gan eu nodi yn wyrdd yn awtomatig?

Ydym

Os ydych, pa gyfnod ydych yn credu y dylid ei ddiffinio fel “diweddar” (1 mis, 2 fis, yn gysylltiedig â'r diweddariad misol diwethaf)? Esboniwch.: Mae cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn cefnogi cyfnod o amser nad yw'n hirach na dau fis.

Os Na, esboniwch eich rhesymau.:

6 A ydych yn cytuno â'r penderfyniad i beidio â chynnwys blwch ticio ar gyfer meddiannaeth unigol ar ffurflenni cais cofrestru?

Ydym

Esboniwch eich rhesymau.: Mae cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn credu, er gwaethaf y geiriad sydd wedi ei ddiwygio, bod nifer sylweddol o ymgeiswyr sy'n dal i roi tic yn y blwch hwn pan nad yw'n berthnasol. Mae hyn yn achosi llawer o waith a chostau heb ddigon o fanteision i'w wrthbwysu. Er hynny, rydym yn cefnogi rhagor o ystyriaeth sy'n ymwneud â gofyn i ymgeiswyr pwys arall sy'n byw yn yr eiddo. Byddai casglu gwybodaeth ansoddol yn helpu Swyddogion Cofrestru Etholiadol i sicrhau bod yr holl breswylwyr sy'n gymwys yn cael eu gwahodd i gofrestru. Hoffem weld rhagor o waith yn cael ei wneud i weld pa mor ymarferol y byddai hyn o ran ymarferoldeb Gwasanaethau Gweithgynhyrchu Electronig a sicrhau y gallai'r wybodaeth hon gael ei phrosesu mewn ffordd syml. Yn rhan o'r gwaith hwn, rydym hefyd yn credu dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r rhinweddau o ganiatáu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gadw manylion y rhai nad ydynt yn gymwys i gofrestru oherwydd eu cenedligrwydd. Heb hyn, mae'n bosibl y byddant yn gofyn i bobl nad ydynt yn gymwys i bleidleisio i gofrestru ar fwy nag un achlysur.

7 A ydych yn cytuno y dylid caniatáu defnyddio e-bost fel y dull cyntaf o gysylltu ar gyfer aelwydydd yn Llwybr 1 (lle cynhelir cyfeiriad e-bost), gan ddilyn gan gysylltu ar bapur os na cheir ymateb?

Ydym

Os na, esboniwch eich rhesymau.: Mae cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn sylweddoli bod hwn yn faes lle ceir llawer o farnau gwahanol, ond ar y cyfan, credwn y dylai aelwydydd Llwybr 1 fod yn gallu ymateb i e-gyfathrebiad cyn cysylltu â nhw ar bapur. Mae ein barn yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei ddeall yw'r ffordd y mae dinasyddion yn dymuno cyfathrebu a'r manteision ychwanegol sy'n dod gyda'r dull hwn. Er ein bod ni'n derbyn nad yw e-gyfathrebiad yn golygu bod cysylltiad wedi ei wneud ag aelwyd— h.y. gyda llythyr drwy'r drws, bydd y cyfathrebiad ar gyfer rhywun y mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn hyderus sy'n breswlydd o hyd. Os derbynnir yr egwyddor sylfaenol ar gyfer diwygio canfasio – h.y. bod gwybodaeth am etholwyr yn cael ei chadarnhau gan baru data manwl, yna ni ddylai cysylltu â'r etholwyr yn bersonol danseilio'r broses. Rydym hefyd yn credu ei bod yn rhoi manteision ychwanegol lle bo etholwr wedi ei gadarnhau yn anghywir, mae'n gadael iddynt wybod bod yr etholwr yn dal wedi ei gofrestru mewn cyfeiriad blaenorol fel y gellir cymryd camau i'w ddileu. Mae arbedion costau posibl i'w cael hefyd, er ein bod ni'n gwybod ar hyn o bryd bod rhai cyflenwyr masnachol yn codi mwy na'r gost debygol am gyfathrebiad a anfonir drwy'r post. Byddai'n fuddiol pe byddai'r Llywodraeth yn edrych ar gostau e-gyfathrebiadau a lle y gellid defnyddio dewisiadau eraill. Ar draws pob agwedd o'r broses o ganfasio er y byddwn yn pwysleisio bod angen ystyried a phrofi pob cyfathrebiad yn drylwyr. Byddai'n rhaid i brofion o'r fath gynnwys profi pob e-ddogfen Cymraeg/Saesneg er mwyn sicrhau bod yr un ansawdd o gynnyrch cyfathrebu ar gael. Mae'n hanfodol bod y dinesydd yn hyderus ynghylch tarddiad yr e-gyfathrebiad ac yn deall y camau sydd angen eu cymryd ganddo. Bydd angen ystyried hefyd a fyddwn yn cysylltu â'r holl etholwyr â'r manylion cyswllt angenrheidiol ynteu nifer cyfyngedig mewn eiddo. Ar ben hynny, nid ydym yn

credu dylid cysylltu ag unigolion o dan 18 oed. Yn olaf, rydym yn teimlo y dylid ehangu e-bost i gynnwys dewisiadau e-gyfathrebu eraill sydd ar gael i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, megis neges destun neu ap y Cyngor.

8 A ydych yn cytuno â'r broses arfaethedig ar gyfer Llwybr 1?

Ydym

Esboniwch pam.: Mae cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn credu mai defnyddio data i ddarparu profiad gwell i ddinasyddion yw'r dull cywir i'w gymryd. Ni all etholwyr ddeall y rheidrwydd i gadarnhau eu manylion bob blwyddyn ac mae ein galluogi ni i gysylltu â nhw heb iddynt fod angen ymateb yn gam ymlaen. Bydd hefyd yn cyflawni arbedion ariannol i awdurdodau lleol y mae eu hangen yn fawr. Unwaith eto, byddem yn pwysleisio pwysigrwydd y geiriad ar y cyfathrebiad i sicrhau bod dinasyddion yn deall pa gamau, os o gwbl, y mae'n rhaid iddynt eu cymryd. Yn benodol, mae gennym bryderon ynghylch sicrhau bod newidiadau sydd angen eu gwneud, megis etholwyr yn troi yn 76, yn cyrraedd oed pleidleisio neu'n nodi preswylwyr eraill sydd wedi symud i mewn, wedi eu hamlinellu'n glir. Hefyd, rydym yn credu bod symud sianel oddi wrth ymatebion ar bapur er budd y dinesydd a'r awdurdod lleol, a dylai hyn gael ei alluogi cyn belled â phosibl. Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol gael eu hannog i wneud defnydd o'r sianeli hyn yn hytrach na gofyn am ymatebion ar bapur.

9 A ydych yn cytuno â'r cynnig i gadw gweithgarwch dilynol gorfodol (ymweliadau cartref, ac ati) allan ar gyfer aelwydydd sydd wedi eu hanfon drwy Lwybr 1?

Ydym

Esboniwch pam.: Rhagosodiad diwygio'r broses o ganfasio yw gwneud defnydd gwell o ddata sy'n galluogi dinasyddion i beidio ag ymateb pan nad oes unrhyw newid yng nghyfansoddiad eu haelwyd. Cam yn ôl fyddai ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Cofrestru Etholiadol gynnal gweithgarwch dilynol. Hefyd, gan dybio bod e-gyfathrebiadau yn cael eu caniatáu, bydd llawer o aelwydydd yn cael dau fath o gyfathrebiadau gwahanol sy'n rhoi cyfle ychwanegol iddynt ystyried yr wybodaeth sy'n cael ei hanfon iddynt.

10 A ydych yn cytuno â'r broses arfaethedig ar gyfer Llwybr 2?

Ydym

Esboniwch pam.: Mae cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn credu mai Llwybr 2 yw'r dull priodol o weithredu gan ystyried mai'r eiddo sydd wedi eu hanfon drwy lwybr 2 yn unig yw'r rhai y mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn credu o ddifrif sydd wedi cael newid i'w cyfansoddiad. Ar ben hynny, mae'n hanfodol bod sancsiynau erlyn am beidio â dychwelyd yr HEF a'r ITR sydd ar gael yn awr i'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn parhau i fod ar gael yn y dyfodol, os na fyddant wedi eu gwella o dan y diwygiadau canfasio.

11 A ydych yn cytuno y dylid cysylltu yn bersonol (curo ar ddrws neu alwad ffôn) fod yn elfen orfodol o'r canfasiad diwygiedig?

Ydym

Esboniwch pam.:

Mae tystiolaeth sylweddol o'r effaith gadarnhaol y mae cysylltu yn bersonol yn ei gael ar ymatebion canfasio. Mae cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn falch bod cysylltiadau dros y ffôn wedi eu cynnwys ac yn awgrymu y dylid ystyried gallu defnyddio e-bost hefyd.

Er ein bod ni'n derbyn bod cost sylweddol o hyd sy'n gysylltiedig â chanfasio personol, bydd y model newydd arfaethedig yn gweld nifer fawr o eiddo nad ydyw mwyach yn ofynnol iddynt ymateb, ac o ganlyniad, ceir llai o eiddo o lawer y bydd angen cysylltu â nhw.

12 A oes mathau o eiddo sy'n ychwanegol at y rhai a nodir uchod yr ydych yn credu y dylid eu cyfeirio at Lwybr 3?

Rhestrwch a rhowch eich rhesymau.: Mae cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn credu y dylid ystyried y canlynol: safleoedd cartrefi symudol; llety ar gyfer staff ysbytai, barics personél y lluoedd arfog, a marinâu.

13 A ydych yn credu mai dyma'r broses gywir i ddelio â'r eiddo hyn?

Ydym

Os na, a allwch chi awgrymu dull arall?: Er bod cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn cytuno gyda'r broses, mae gweinyddwyr Cymru yn canfod yn aml y ceir ymateb cyfyngedig iawn gan ITRau a anfonir i Dai Amlfeddiannaeth (er enghraifft cartrefi gofal neu neuaddau preswyl myfyrwyr). Hyd nes y ceir newidiadau i'r ddeddfwriaeth fel y gellir gwella/symleiddio'r gwaith dilynol sy'n angenrheidiol i ITRau, bydd problemau yn parhau. Efallai y bydd cyfle yn bodoli i ystyried dulliau amgen ac rydym yn cefnogi darpariaeth dewis Llwybr 3 yn llawn.

14 A ydych yn credu mai anfon yr eiddo hyn i Lwybr 2, y canfasiad llawn, os na fydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gallu cael gafael ar ddata, yw'r amddiffyniad cywir ar gyfer eiddo hyn?

Ydym

Esboniwch eich rhesymau.:

Os nad yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen yna nid oes dewis arall heblaw anfon yr eiddo lawr Llwybr 2. Credwn yn gadarn, fodd bynnag, y dylid rhoi rhagor o gymorth i Swyddogion Cofrestru Etholiadol er mwyn eu helpu nhw i gael gafael ar wybodaeth gan sefydliadau, yn enwedig barics milwrol a myfyrwyr. Dywedodd gweinyddwyr Cymru hefyd os, er enghraifft, nad yw'r tai amlfeddiannaeth wedi ymateb drwy broses Llwybr 3, eu bod nhw yn annhebygol iawn o ymateb drwy Lwybr 2, a allai arwain at ffordd o gael ymateb sy'n hirach ac yn fwy costus. Byddai cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn cefnogi'n llwyr ac yn annog Llywodraethau'r DU/Cymru/Yr Alban i fynd ar drywydd eu hawgrym o osod dyletswydd benodol ar swyddogion cyfrifol ar fathau o eiddo adnabyddadwy yn y ddeddfwriaeth er mwyn darparu'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol â'r wybodaeth hon pan ofynnir iddynt wneud hynny, yn gyson â'r ddeddfwriaeth diogelu data.

15 A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai darpar etholwyr/etholwyr posibl gael eu cynnwys yn y broses o baru data a'r cyfathrebiadau canfasio?

Nac Ydym

Os nad ydych, esboniwch pam.: Nid yw darpar etholwyr/etholwyr posibl yn etholwyr cofrestredig ac rydym yn ofni y byddai eu cynnwys ar unrhyw gyfathrebiad yn golygu y byddai eglurder y cyfathrebiad yn cael ei gyfaddawdu. Mae rhai Swyddogion Cofrestru Etholaethol yn cadw darpar etholwyr/etholwyr posibl ar eu meddalwedd tra bo eraill yn eu dileu ar gyfnodau cyfnodol neu ar adeg benodol, er enghraifft cyn y canfasiad blynyddol. Mae diwygio'r broses o ganfasio yn gyfle i edrych ar darpar etholwyr/etholwyr posibl mewn mwy o fanylder â darpariaeth statudol yn cael ei gwneud fel y gellir dileu darpar etholwyr/etholwyr posibl yn ôl disgrisiwn y Swyddogion Cofrestru Etholiadol pan fydd yr holl gamau statudol wedi eu gwneud. Byddem hefyd yn ceisio cael canllawiau i gynorthwyo Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn y penderfyniad hwn. Byddai cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol hefyd yn cytuno yn gryf bod y Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cael defnyddio rhagor o ddisgrisiwn yn y maes hwn, gyda chanllawiau clir. Heb ei Ateb

Eglurwch beth yw'r rhain.:

16 Beth ydych chi'n credu yw'r problemau gyda'r Ffurflen Ymholiad Aelwyd bresennol?

Sylwadau.: Mae cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn credu bod cael Ffurflenni Ymholiad Aelwyd ar wahân yn Gymraeg ac yn Saesneg yn anodd eu rheoli

ac yn ddrud i'w weinyddu. Dylid ystyried symleiddio cynllun yr HEF presennol ac edrych ar y posibilrwydd o dempledi HEF dwyieithog clir i'w defnyddio yng Nghymru, yn ofalus. Yn ychwanegol: Dryswch etholwyr – mae pobl yn credu eu bod nhw wedi cofrestru ar ôl iddynt gwblhau eu manylion ar HEF, heb sylweddoli mai'r rhan gyntaf o broses dau gam yw hon a bod rhaid iddynt gwblhau ITR er mwyn cofrestru. Maint – mae'n rhy fawr gyda gormod o wybodaeth. A3 ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae A4 yn faint haws i'w reoli ar gyfer y canfasiad personol ac ar gyfer yr unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen, heb sôn am waith prosesu y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Ceir dau gynllun ar gyfer yr HEF – wedi'i lenwi ymlaen llaw a gwag. Rydym yn ymwybodol bod rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio un templed yn unig ar gyfer rhai wedi'u llenwi ymlaen llaw a rhai gwag. Dylid ystyried a yw'n bosibl cael un cynllun yn unig. Mae gormod o wybodaeth ar dudalen 1 a cheir tystiolaeth nad yw preswylwyr yn darllen y llythyr atodol.

17 A oes unrhyw wybodaeth y gellir ei thynnu allan o'r Ffurflen Ymholiad Aelwyd?

Sylwadau:: Roedd aelodau cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn tueddu i gwblhau 'Adran 2' yr HEF gydag etholwyr ychwanegol yn hytrach nag 'Adran 3', ac efallai y gellid cyfuno'r adrannau hyn. Gellid lleihau nifer y llinellau sydd ar gael ar gyfer ychwanegu enwau. Nid oes rhaid i'r HEF wedi'i llenwi ymlaen llaw gynnwys trefniadau pleidleisio drwy'r post. Nid oes angen cynnwys gwybodaeth pleidleisio drwy'r post ar ddiwedd y HEF gan y bydd wedi ei chynnwys ar yr ITR. Lleihau'r geiriad ar dudalen 1 (llythyr). Dylid ailystyried y gair dewisol ar gyfer y manylion cyswllt. Byddem yn cynghori yr ystyrir sut y mae'r wefan cofrestru i bleidleisio wedi newid er mwyn annog dinasyddion i ddarparu manylion cyswllt.

18 A oes unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu darparu mewn cysylltiad â'r model newydd arfaethedig ar gyfer y canfasiad blynyddol, nad ydynt eisoes wedi eu cynnwys mewn cwestiwn arall?

Sylwadau:: Mae cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn credu, er mwyn sicrhau pontio llwyddiannus i'r prosesau canfasio newydd, ei bod hi'n gwbl hanfodol sicrhau bod ymarferoldeb a rheolaeth llif gwaith y feddalwedd Rheolaeth Etholiadol wedi eu profi yn ddigonol a'u bod wedi eu sefydlu o fewn cyfnod cynllunio'r prosiect a drefnwyd cyn unrhyw ddyddiad 'mynd yn fyw'. Mae cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn croesawu gwaith y Llywodraeth i ddiwygio'r broses ganfasio flynyddol bresennol a sicrhau manteision i ddinasyddion ac awdurdodau lleol. Wrth gefnogi'r cynigion, ceir rhai meysydd sy'n haeddu ystyriaeth bellach. Cyfeirnodau Eiddo Unigryw. Rydym ni'n deall y bydd y data cenedlaethol yn seiliedig ar Gyfeirnodau Eiddo Unigryw yn unig ac na fydd yn defnyddio'r Cyfeirnod Eiddo Unigryw na'r gyfres o gyfeiriadau er mwyn paru, fel y digwyddodd pan gyflwynwyd y Cofrestru Etholiadol Unigol. O ganlyniad, bydd angen i Swyddfa'r Cabinet anfon negeseuon cynnar priodol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol i sicrhau bod ganddynt Gyfeirnod Eiddo Unigryw ar gyfer pob eiddo sydd ganddynt. Rydym yn ymwybodol bod rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol nad oes ymdriniaeth lawn ganddynt ac mae gwneud yr angenrheidrwydd am Gyfeirnodau Eiddo Unigryw sydd ar waith yn eglur yn hollbwysig er mwyn diwygio canfasio yn llwyddiannus, o bwysigrwydd amlwg. Setiau sgiliau yn yr Awdurdodau Lleol a'r Feddalwedd Rheolaeth Etholiadol. Ar hyn o bryd, nid yw rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gallu paru yn lleol oherwydd diffyg galluedd y feddalwedd, sgiliau, adnoddau a'r data sydd ar gael. Bydd angen i Swyddfa'r Cabinet ddarparu cymorth, canllawiau a chyllid i'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol i'w galluogi nhw i baru data yn lleol yn llwyddiannus. Byddem hefyd yn annog y Llywodraeth i gysylltu â rhanddeiliaid allweddol sy'n cynnal cronfeydd data, megis cofnodion y Dreth Gyngor, er mwyn galluogi adroddiadau i gael eu hysgrifennu y gellir eu llwytho yn awtomatig i systemau Gwasanaethau Gweithgynhyrchu Electronig heb i awdurdodau lleol unigol orfod siarad â'u cyflenwyr fesul achos. Symleiddio'r broses HEF

Er ein bod ni'n cefnogi gallu'r dinesydd i gwblhau'r HEF i gofrestru hefyd mewn un broses ddi-dor, byddai'n angenrheidiol i'r geiriad ar y cyfathrebiad ystyried os nad yw eu rhifau Yswiriant Gwladol ganddynt wrth law eu bod nhw dal yn gallu cwblhau'r HEF ac yna chwblhau eu cofrestriad yn ddiweddarach. Fel arall, rydym yn ofni y gall cwblhad y HEF gael ei leihau. Cyflenwyr Gwasanaethau Gweithgynhyrchu Electronig Bydd diwygio'r broses o ganfasio yn ddibynnol ar gyflenwyr Gwasanaethau Gweithgynhyrchu Electronig ac mae gennym bryderon o ran sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i ddatblygu'r ymarferoldeb a sicrhau eu bod nhw'n cynnal profion digonol ar gyfer y defnyddiwr. Paru Data Cenedlaethol. Er ein bod ni'n falch o ddysgu y bydd llai o gyfyngiadau ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol sy'n anfon eu data i'r Adran Gwaith a Phensiynau na phan gyflwynwyd Cofrestru Etholiadol Unigol, byddem yn croesawu rhagor o fanylion am y broses a'r amserlenni y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gorfod gweithio ynddynt. Hyblygrwydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol. Dylid ystyried caniatáu am ddisgresiwn y Swyddogion Cofrestru Etholaethol ynghylch a ddylid canfasio yn llawn ar unrhyw adeg, gan ganiatáu i Swyddogion Cofrestru Etholaethol wneud yr hyn y maent yn teimlo sy'n angenrheidiol yng ngoleuni amgylchiadau lleol cyffredinol.

Adran 4 – Rhestr Termiau:

ERO	Swyddog Cofrestru Etholiadol
IER	Cofrestru Etholiadol Unigol
Eiddo Coch	Lle bo arwyddion yn awgrymu bod newidiadau yn yr eiddo
Etholwr Coch	Lle bo arwyddion bod newidiadau i'r wybodaeth a gedwir ar unigolyn hyn o bryd.
ITR	Gwahoddiad i Gofrestru
HEF	Ffurflen Ymholiad Aelwyd
Llwybr 1	Proses newydd – ar gyfer eiddo lle bo'r data'n awgrymu nad oes newid yng nghyfansoddiad yr aelwyd
Llwybr 2	Proses newydd – ar gyfer eiddo lle bo'r paru data'n amlygu efallai fod newid i'r wybodaeth y mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ei chadw ynghylch yr eiddo ar hyn o bryd
Llwybr 3	Proses newydd – ar gyfer aelwydydd amlfeddiannaeth lle gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol fynnu bod un swyddog sy'n gyfrifol am yr eiddo (megis landlord) yn darparu rhestr o'r preswylwyr cymwys yn yr eiddo
DWP	Adran Gwaith a Phensiynau